

Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2018/23

Awdur: Cyfarwyddwr Adran Eiddo'r Cyngor a Chaffael

Yn dilyn ymgynghoriad â:

Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol

Cyfarwyddwyr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant

Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes

Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio

RHAGAIR GAN AELOD O'R CABINET AR FATERION GWASANAETHAU CORFFORAETHOL Y CYNGOR

Rwy'n falch o gyflwyno Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ("Y Cynllun") 2018/23 y Cyngor ar gyfer Asedau sy'n Eiddo.

Mae Llywodraeth Leol yn dal i wynebu'r her o gydbwyso cyllidebau sy'n gostwng a'r galw cynyddol am wasanaethau. Rhaid i ni'r Cyngor ymateb yn gadarnhaol drwy wella effeithlonrwydd gweithredol, gwella cyflawniad ariannol ein hasedau eiddo a chwilio am gyfleoedd i gydweithio'n well.

Ar ôl costau staffio, y gost o berchen a gweithredu eiddo yw cost unigol fwyaf y Cyngor. Mae'n hanfodol bod y Cyngor yn cadw ei bortffolio mor fach ag sy'n bosibl er mwyn darparu gwasanaethau, a bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i weithredu'n effeithlon a lleihau costau.

Rhaid i ni barhau i herio ein hasedau, chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio gofod mewn ffordd fwy effeithiol a lleihau nifer yr adeiladau rydyn ni'n eu defnyddio ar gyfer swyddfeydd.

Mae'r Cynllun yma yn nodi'r gwaith da yn y maes yma dros y pum mlynedd diwethaf ac yn nodi sut y bydd asedau eiddo'r Cyngor yn cyfrannu'n gadarnhaol at gyflawni llawer o amcanion strategol y Cyngor, gan amlinellu'r rhaglenni sy'n cael eu rhoi ar waith i gyflawni'r nod yma.

Mae angen i ni wneud gwahaniaeth go iawn trwy ddangos parodrwydd i fod yn arloesol wrth ddefnyddio ein hasedau eiddo.

Y Cynghorydd Mark Norris

Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol

Cynnwys

ADRAN 1 – RHAGYMADRODD

1.1 AM Y CYNLLUN

- 1.1.1. Nod
- 1.1.2. Cysylltiadau
- 1.1.3. Cyd-destun Strategol
- 1.1.4. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- 1.1.5. Cynllunio Gwasanaethau a Rheoli Asedau

1.2 AM RONDDA CYNON TAF

- 1.2.1 Y Cymunedau sy'n cael eu Gwasanaethu
- 1.2.2 Strwythur Gwleidyddol
- 1.2.3 Strwythur y Sefydliad

ADRAN 2 – RHEOLAETH STRATEGOL O BORTFFOLIO EIDDO RhCT

2.1 PORTFFOLIO EIDDO RhCT

- 2.1.1 Asedau Presennol

2.2. AD-DREFNU ASED AU

- 2.2.1 Cael gwared ar adeiladau dros ben
- 2.2.2 Rhaglen Derbyniadau Cyfalaf
- 2.2.3 Rhaglen RhCT Gyda'n Gilydd

2.3 STRATEGAETH SWYDDFEYDD CORFFORAETHOL

- 2.3.1 Sefyllfa bresennol
- 2.3.2 Cynigion ar gyfer cyfnod y Cynllun Presennol

2.4 CANOLFANNAU CYMUNED

2.5 GWASANAETHAU A RENNIR

2.6 RHAGLEN YSGOLION YR 21AIN GANRIF

2.7 CANOLFAN SIOPA BRO TAF

2.8 GWAITH ADFYWIO CANOL TREFI

ADRAN 3 – RHEOLI CYFLEUSTODAU

3.1 Rheoli Ynni

3.2 Buddsoddi i Arbed

3.3 Prosiectau ynni

3.4 Lleihau Carbon

3.5 Rheoli Dŵr

3.5.1 Cefndir

3.5.2 Mesurau arbed dŵr wedi'u cyflwyno gan RCT

3.5.3 Sefyllfa bresennol

3.6 Rheoli Safleoedd

ADRAN 4 – RHEOLAETH WEITHREDOL O BORTFFOLIO EIDDO RhCT

4.1 Rôl Rheolwr yr Adeilad

4.1.1 Dyletswyddau Cyffredinol Rheolwr yr Adeilad

4.1.2 Canllawiau ar gyfer Rheolwyr Adeiladau

4.2 Cynnal a Chadw Eiddo

4.2.1 Cyflwr Cyffredinol

4.2.2 Cyllid ar gyfer gwaith

4.2.3 Profion Statudol/Asesiadau Risg

ADRAN 5 – CYFLENWI GWASANAETHAU: MATERION GWEITHREDOL ALLWEDDOL

5.1 Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau

5.1.1 Nod

5.1.2 Dull Cynhyrchu

5.2 Gweithgorau Portffolio Eiddo Gwasanaethau

ADRAN 6 – CYFLAWNI RHEOLI ASED AU STRATEGOL

6.1 Data

6.1.1 Cronfa Ddata Rheoli Asedau Corfforaethol

6.1.2 Cofrestr Asedau

6.1.3 Asedau'r Sector Cyhoeddus

6.2. Cyflawniad a Phrosesau

6.2.1 Carfanau Rheoli Ystadau ac Eiddo Cyfreithiol

6.2. 2 System Rheoli Achosion

ATODIADAU

ATODIAD 1 Ffurflen Cynlluniau Rheoli Asedau Strategol

ATODIAD 2 Cynlluniau Rheoli Asedau Strategol

ATODIAD 3 Asedau Eiddo

ATODIAD 4 Rhaglen RhCT Gyda'n Gilydd

ATODIAD 5 Polisi Gosod Eiddo Rhatach

ATODIAD 6 Strategaeth Rheoli Dŵr

ATODIAD 7 Canllaw Rheolwyr Safleoedd

ATODLEN Y TABLAU

TABL 1: Cynnwys cryno Portffolio Eiddo RhCT

TABL 2: Derbyniadau cyfalaf drwy Werthu Asedau

TABL 3: Rhaglen Safleoedd Tai

TABL 4: Swyddfeydd gwag

TABL 5: Swyddfeydd i'w gadael yn wag 19/20

TABL 6: Cyfleusterau desgiau gwag

TABL 7: Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif Band A

TABL 8: Prosiectau wedi'u Hariannu trwy Gyfalaf

TABL 9: Prosiectau wedi'u Hariannu trwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol

TABL 10: Arbedion trwy Fuddsoddi mewn Cynlluniau Ynni

TABL 11: Cyflwr y Portffolio

TABL 12: Enghreifftiau o Brofi Statudol/Asesiadau Risg

Adran 1 – Rhagymadrodd

1.1 Ynglŷn â'r Cynllun

1.1.1 Nod

Mae'r ddogfen yma yn cynnwys y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol ar gyfer Asedau Eiddo ar gyfer y cyfnod 2018/2023.

Mae'r Cynllun yn darparu'r fframwaith strategol lefel uchel ar gyfer rheoli portffolio eiddo'r Cyngor, sy'n cynnwys yr holl dir ac adeiladau y mae'r Cyngor yn berchen arnyn nhw neu'n eu prydlesu, ac eithrio asedau seilwaith.

Mae yna nifer o ddiffiniadau o reoli asedau a rheoli eiddo. Y diffiniad a geir yng Nghanllawiau Rheoli Asedau Sector Cyhoeddus Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig 2008 yw (yn yr iaith wreiddiol):

“Strategic Asset management is the activity that seeks to align the asset base with the organisation’s corporate goals and objectives. It ensures that the land and buildings asset base of an organisation is optimally structured in the best corporate interest of the organisation concerned”

Mae sawl her sy'n wynebu awdurdodau lleol, er enghraifft, moderneiddio sut caiff gwasanaethau eu darparu a manteisio i'r eithaf ar adnoddau. Trwy flaenoriaethu rheoli asedau, cyd-weithio a chyfathrebu'n well o fewn yr awdurdod, gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, cysylltu asedau â blaenoriaethau ac asesu a yw'r sylfaen asedau'n cyflawni hyd orau ei gallu, bydd modd i awdurdodau lleol gyflawni'r heriau yma.

Mae Rheoli Asedau mewn ffordd strategol yn helpu i fanteisio i'r eithaf ar y buddion sy'n deillio o'n tir a'n hadeiladau. Y prif nod yw helpu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau, bodloni gofynion y gwasanaeth, codi refeniw trwy incwm sy'n dod o lety rhent a chydymffurfio â dyletswyddau rheoleiddiol a statudol.

Mae'r Cynllun yn nodi ein gweledigaeth a'n dull o reoli asedau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf mewn ffordd strategol. Y prif nod yw manteisio i'r eithaf ar y buddion sy'n deillio o'n tir a'n hadeiladau, helpu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau, bodloni gofynion y gwasanaethau, codi refeniw trwy incwm sy'n dod o lety rhent a chydymffurfio â dyletswyddau rheoleiddiol a statudol.

1.1.2 Cysylltiadau

Dylai'r Cynllun ategu cyfeiriad polisi strategol RhCT, sy'n dylanwadu'n uniongyrchol ar ddarparu gwasanaethau rheng flaen. Dylai hefyd gefnogi blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol, y rhaglen Gyfalaf a'r Strategaeth Ariannol Gorfforaethol.

Mae Rheoli Asedau yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor a bydd y gwasanaeth yn allweddol wrth sicrhau gwelliannau eraill i'r gwasanaeth, fel lleihau nifer y swyddfeydd sydd gyda'r Cyngor, darparu canolfannau i'r gymuned a Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Mae'r Cynllun hefyd yn hollbwysig wrth gysylltu'r strategaeth gyffredinol ar gyfer asedau eiddo'r Cyngor â Chynlluniau Gwasanaethau. Mae hyn yn cael ei gyflawni trwy'r Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaeth blynyddol, sy'n nodi'r ffrydiau gwaith gwasanaeth pwysicaf mewn perthynas ag eiddo.

Mae'r Cynllun yn un lefel uchel yn fwriadol, gan y bydd gwaith sylweddol yn pennu'r cyflawniad a'r deilliannau dros y 5 mlynedd nesaf. Mae'n nodi fframwaith a strategaeth polisi ymarferol er mwyn diwallu anghenion RhCT.

1.1.3 Cyd-destun Strategol

Caiff cyfeiriad cyffredinol y Cyngor ar gyfer 2016-2020 ei nodi yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor "Y Ffordd Ymlaen". Gweledigaeth y Cyngor yw:

"Bod yn Fwrdeistref Sirol sydd â dyheadau uchel, sy'n hyderus ac sy'n hyrwyddo cyfle i bawb." Pwrpas y Cyngor, a'r rheswm y mae'n bodoli, yw **"darparu arweinyddiaeth gymunedol gref a gwasanaethau effeithiol ar gyfer pobl Rhondda Cynon Taf er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial ac i ffynnu"**.

Mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar y tair blaenoriaeth ganlynol:

1. Economi – Adeiladu economi gref
2. Pobl – hyrwyddo annibyniaeth a bywydau cadarnhaol i bawb.
3. Lleoedd – creu cymdogaethau mae pobl yn falch o gael byw a gweithio ynddyn nhw.

Mae'r Cyngor wedi pennu pedair egwyddor i'w hun sy'n berthnasol i'r tair blaenoriaeth. Mae eiddo yn elfen ym mhob un ohonyn nhw:

1. Darparu gwasanaethau hanfodol yn dda
2. Helpu pobl a chymunedau i helpu eu hunain
3. Adeiladu Bwrdeistref Sirol gynaliadwy
4. Byw ar yr hyn sydd gyda ni

Mae'r Cyngor yn deall bod eiddo yn elfen hanfodol wrth gyflawni gweledigaeth y Cynllun Corfforaethol.

1.1.4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ('y Ddeddf') yn gofyn bod y Cyngor yn dangos sut y mae'n cynnwys yr egwyddor 'datblygu cynaliadwy' yn ei waith.

Mae'r Is-adran Ystadau Corfforaethol ynghyd ag adrannau gwasanaeth yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu i ddiwallu anghenion y cymunedau. Mae hyn i'w weld yn yr adolygiadau trawsbynciol, fel canolfannau'r gymuned, ac mae hefyd yn cael ei ymgorffori yn y Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau.

1.1.5 Cynllunio Gwasanaethau a Rheoli Asedau

1.1.5.1 Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau

Mae Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau yn llywio'r Cynllun ei hun ac yn darparu cyswllt strategol allweddol rhwng cynllunio gwasanaethau a rheoli asedau. Rhaid i bob grŵp gwasanaeth ddiffinio eu gofynion asedau eiddo mewn Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaethau bob blwyddyn. Mae wedi'i nodi bod ansawdd y Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau yma'n amrywiol. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae ffurflen electronig bellach yn cael ei defnyddio, caiff grwpiau gwasanaeth y cyfle i ymgynghori â rhanddeiliaid bob blwyddyn, ac mae'r Garfan Rheoli Ystadau yn eu helpu. Mae cyfarfodydd y Gweithgor Rheoli Asedau yn cynnig y cyfle i gael trosolwg o'r broses ac i rannu'r newyddion diweddaraf amdani. Ceir copi o'r ffurflen gyfredol yn Atodiad 1.

Mae'r broses wedi nodi nifer o feysydd i'w hystyried (gweler Atodiad 2) a bydd ymatebion i'r materion gwasanaeth yma yn cael eu paratoi yn ystod hyd oes y Cynllun, yn amodol ar strategaethau ariannu.

Mae'r Cynllun yn cael ei adolygu'n gyson i sicrhau bod y Cyngor yn rheoli asedau mewn ffordd strategol a chyfredol.

1.1.5.2 Gweithgor Rheoli Asedau Corfforaethol

Mae'r Gweithgor Corfforaethol Rheoli Asedau yn grŵp sy'n cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn i drafod materion eiddo o safbwynt corfforaethol. Mae'r Gweithgor yn cael ei gadeirio gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol – Eiddo ac Ystadau, ac mae holl Gyfarwyddiaethau'r Cyngor sy'n defnyddio asedau eiddo yn cael eu cynrychioli, a hynny ar lefel uwch. Mae cynrychiolaeth y Gweithgor yn dda, sy'n dangos eu hymrwymiad parhaus i'r Cynllun a blaenoriaeth y Cyngor i reoli asedau ar lefel uwch.

1. 2 AM RONDDA CYNON TAF

1.2.1 Y Cymunedau sy'n cael eu Gwasanaethu

O ran ei boblogaeth, Rhondda Cynon Taf yw'r trydydd awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru.

Cafodd y Fwrdeistref Sirol ei chreu yn 1996 yn rhan o ad-drefnu Llywodraeth Leol. Daeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i fodolaeth drwy uno cyn ardaloedd Morgannwg Ganol, sef Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf Elái (ac eithrio'r Creigiau a Phentyrch). Poblogaeth y Fwrdeistref Sirol yw 234,400, sy'n cynnwys 99,700 o gartrefi ac mae 7 awdurdod lleol cyfagos.

Mae sir Rhondda Cynon Taf yn ymestyn ar draws ardal cymoedd De Cymru, o'r Bannau Brycheiniog yn y gogledd hyd at gyrion Caerdydd yn y de. Mae'n cynnwys cymysgedd o gymunedau trefol, lled-faestrefol a gwledig, wedi'u lleoli mewn mynyddoedd a thir amaethyddol isel.

1.2.2 Strwythur Gwleidyddol Cyngor Rhondda Cynon Taf

Caiff cyfanswm o 75 o gynghorwyr eu hethol i gynrychioli pobl Rhondda Cynon Taf, ac maen nhw'n gwasanaethu 172,673 o etholwyr.

Mabwysiadodd Rhondda Cynon Taf y system Arweinydd a Chabinet yn 2002. Mae'r Cabinet yn cynnwys Arweinydd, Dirprwy Arweinydd ac 8 Aelod Cabinet arall sy'n gwneud penderfyniadau pwysig ac arwyddocaol. Eu gwaith yw:

- Rhoi arweiniad
- Cynnig y gyllideb a fframwaith ar gyfer polisïau
- Gweithredu polisïau drwy'r Prif Swyddogion

Mae'r Cabinet yn rhan bwysig o'r broses o wneud penderfyniadau yng Nghyngor Rhondda Cynon Taf. Serch hynny, mae gyda'r Cyngor llawn (cyfarfod ar gyfer yr holl Gynghorwyr) hefyd ran bwysig i'w chwarae. Dyma rai o swyddogaethau'r Cyngor llawn:

- Cymeradwyo neu wrthod y gyllideb a'r fframwaith ar gyfer polisïau
- Ethol Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor
- Mabwysiadu Cyfansoddiad
- Penodi pwyllgorau i fod yn gyfrifol am swyddogaethau Trosolwg a Chraffu a materion rheoliadol

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn pennu swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cyngor a'r Cabinet ill dau.

Mae'r Cyngor yn wynebu heriau ariannol a heriau i'w wasanaethau wrth iddo addasu i ostyngiad sylweddol yn ei gyllideb. Mae pwysau ariannol yn effeithio ar nid yn unig y Cyngor ond ein holl bartneriaid, p'un a ydyn nhw yn y sectorau cyhoeddus, preifat neu gymunedol a gwirfoddol. Mae'r Cyngor yn gweithio i sicrhau bod gwariant cyhoeddus yn parhau i ddarparu gwasanaethau sy'n cynnig gwerth am arian hyd yn oed gwell trwy waith a phrosiectau rhagweithiol ac arloesol ar y cyd lle bynnag y bo modd.

1.2.3 Strwythur y Sefydliad

Mae Uwch Arweinwyr y Cyngor yn cynnwys Prif Weithredwr y Cyngor ac uwch swyddogion eraill sy'n gyfrifol am reoli'r Cyngor o ddydd i ddydd.

Mae rolau uwch reolwyr wedi cael eu hailstrwythuro sawl gwaith yn ystod oes Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2013-2018. Mae ailstrwythuro'r rolau uwch reolwyr wedi sicrhau gostyngiad mewn costau ac hefyd wedi caniatáu i'r Cyngor esblygu, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn modd effeithlon, a hynny mewn ymateb i'r heriau ariannol y mae'n ei wynebu ar hyn o bryd.

ADRAN 2 – RHEOLAETH STRATEGOL O BORTFFOLIO EIDDO RhCT

2.1.1 Asedau Presennol

Mae'r Cyngor yn berchen ar ystod amrywiol o asedau tir ac eiddo sy'n cefnogi ac yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion corfforaethol. Mae ansawdd, cyflwr, cynaliadwyedd ac addasrwydd ein hasedau gweithredol yn effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd ein gwasanaethau rheng flaen, a sut rydyn ni'n eu darparu. Mae rheoli asedau'n destun trafod poblogaidd yn y Cyngor, gyda'r arweinwyr gwleidyddol ac uwch reolwyr y Cyngor yn ei gadw ar yr agenda.

Mae nifer o asedau yn perthyn i'r Cyngor, gan gynnwys ysgolion, llyfrgelloedd, safleoedd gwaredu gwastraff, mynwentydd ac amlosgfeydd, rhandiroedd, swyddfeydd, canolfannau i'r gymuned, cartrefi i'r henoed, theatrau ac eiddo lle mae'r Cyngor wedi buddsoddi arian ynddo.

Yn fras, mae'r portffolio fel a ganlyn:

Tabl 1 Cynnwys cryno Portffolio Eiddo RhCT

Dosbarthiad yr ased	Nifer
Gweithredol	531
Arall Tir/Adeiladau	2550

Ceir dadansoddiad manwl o asedau eiddo'r Cyngor yn Atodiad 3

Caiff gwerth yr asedau ei gyfrifo ar sail rhaglen dreigl yn unol â meini prawf statudol. Gwerth eiddo'r Cyngor yw £576M (ffigur yn gywir ar 31 Mawrth 2018).

2.2. Ad-drefnu Asedau

2.2.1 Rhaglen Derbyniadau Cyfalaf

Mae nodi, marchnata a chael gwared ar eiddo sydd dros ben neu sydd ddim yn cael ei ddefnyddio digon yn flaenoriaeth i'r Cyngor gan fod y derbyniadau cyfalaf sy'n deillio o hyn yn helpu'r rhaglen Gyfalaf. Mae gyda'r Garfan Rheoli Ystadau restr o dir/adeiladau dros ben ac maen nhw'n ei monitro a'i diweddarau'n rheolaidd.

Er bod y farchnad yn dal i fod yn heriol, mae gwaith paratoi yn mynd rhagddo er mwyn rhoi'r safleoedd ar y farchnad. Caiff nifer o ddulliau gwaredu eu defnyddio, gan gynnwys arwerthiant a thendr cyhoeddus.

Mae'r derbyniadau cyfalaf gros sy'n deillio o gael gwared ar asedau dros y 3 blynedd diwethaf fel a ganlyn:

Tabl 2 Derbyniadau Cyfalaf drwy Werthu Asedau

BLWYDDYN	DERBYNIAD CYFALAF
2015/16	£1,010,026
2016/17	£935,567
2017/18	£3,327,566

Mae disgwyl i darged derbyniadau cyfalaf gros ar gyfer 2018/19 fod tua £9.6M. Fodd bynnag, bydd y ffigur yma yn cael ei addasu yn ystod y flwyddyn, a hynny gan ein bod yn gwybod na fydd yr holl eiddo arfaethedig yn cwblhau'r broses waredu yn ystod 2018/19 oherwydd amodau'r farchnad.

2.2.2 Rhaglen Safleoedd Tai

Yn ystod 2017 cafodd adolygiad cynhwysfawr o holl dir y Cyngor ei gwblhau. Arweiniodd hyn at nodi tua 80 o safleoedd posibl ar gyfer datblygu tai. Mae'r safleoedd wedi'u categorioeddio o ran datblygiadau tymor byr, tymor canolig a thymor hir. Mae'r safleoedd wedi eu categorioeddio ymhellach yn ôl amrywiadau o ddwyseddau posibl.

Tabl 3 Rhaglen Safleoedd Tai

Nifer y lleiniau	Nifer y safleoedd	Tymor
1-2 llain	11	Tymor byr 11 Tymor canolig Dim Tymor hir Dim
2-5 llain	33	Tymor byr 24 Tymor canolig 6 Tymor hir 3
5-10 llain	11	Tymor byr 4 Tymor canolig 2 Tymor hir 5
Dros 10 llain	23	Tymor byr 14 Tymor canolig 4 Tymor hir 5

2.2.3 Rhaglen RhCT Gyda'n Gilydd

Oherwydd y cyni cyllidol, ailstrwythurodd y Cyngor ei wasanaethau. Arweiniodd hyn at nifer sylweddol o safleoedd gweithredol dros ben. Yn rhan o'r pecyn a ddaeth yn sgil y cyni cyllidol, cymeradwyodd y Cabinet fecanwaith o'r enw rhaglen RhCT Gyda'n Gilydd. Roedd hyn yn golygu bod modd i sefydliadau cymunedol gyflwyno cais i ddefnyddio safleoedd ar ôl i wasanaethau'r Cyngor ddod i ben yno. Cafodd raglen RhCT Gyda'n Gilydd ei lansio ar 25 Mawrth 2015.

Yn rhan o'r rhaglen yma, sy'n canolbwyntio ar hwyluso dull cydweithredol, mae'r Cyngor bellach yn rhan o drefniadau ffurfiol gyda gwahanol grwpiau cymunedol a sefydliadau trydydd parti. Mae manylion y rhaglen i'w gweld yn Atodiad 4.

Er mwyn hwyluso'r rhaglen, mae'r Cyngor yn gweithredu polisi Gosod Eiddo am Bris Rhatach. Mae'r polisi yma wedi'i ddiweddarau ychydig. Ceir copi o'r polisi Gosod Eiddo am Bris Rhatach yn Atodiad 5.

2.3 Strategaeth Swyddfeydd Corfforaethol

Mae'r Strategaeth Swyddfeydd wedi esblygu ers Cynllun 2013/18. Mae'r Cyngor wedi mynd ati'n rhagweithiol i leihau nifer yr adeiladau y mae'n berchen arno ac yn rhentu er mwyn arbed arian i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen, ac i helpu i fynd i'r afael â'r her o gyflawni blaenoriaethau allweddol gyda llai o arian.

Mae'r Cyngor wedi cyflymu'r broses yma ac mae ad-drefnu eiddo wedi'i nodi fel un o 6 "blaenoriaeth allweddol yr awdurdod cyfan" yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor 2016-2020. Rydyn ni wedi gosod targed heriol o gael 20% yn llai o swyddfeydd erbyn 2020. Prif nod ad-drefnu swyddfeydd yw lleihau nifer yr adeiladau swyddfa a rhoi staff mewn llai o adeiladau. Bydd gostyngiad yn nifer y swyddfeydd yn arwain at ostyngiad yn y costau refeniw cyffredinol a'r gwaith cynnal a chadw sy'n weddill. Bydd modd gwerthu adeiladau dros ben (gan

arwain at dderbyniad cyfalaf) neu eu prydlesu (gan sicrhau defnydd parhaus o'r adeilad naill ai'n fasnachol neu gan y trydydd sector).

Mae portffolio swyddfeydd y Cyngor wedi'i rannu'n llety Strategol a llety sydd ddim yn Strategol. Y llety Strategol yw'r adeiladau sy'n ffurfio craidd y swyddfeydd ac sy'n debygol o gael eu defnyddio yn y tymor canolog i'r tymor hir. Mae'r adeiladau sydd ddim yn rhai strategol yn cynnwys y rheiny sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, ond y byddai'n bosibl cael gwared arnyn nhw os yw'r amgylchiadau'n caniatáu.

2.3.1 Sefyllfa bresennol

Yn ystod gwaith paratoi Cynllun 2013/2018, cafodd nifer o gamau gweithredu pwysig eu rhoi ar waith i gefnogi'r strategaeth. Gyda'r nod o ddefnyddio swyddfeydd gwag mewn ffordd fwy effeithiol drwy adleoli staff, cafodd safleoedd eu harolygu, a hynny drwy weithio'n agos gyda Grwpiau Gwasanaeth i sicrhau bod y meysydd gwasanaeth cywir yn cael eu hadleoli lle'r oedd modd.

Yn ystod 2017/18 symudodd tua 600 o staff o gwmpas 15 adeilad.

O ganlyniad, roedd modd i sefydliad newydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru rentu swyddfeydd gwag 3066 metr sgwâr yn Nhŷ Dysgu, Nantgarw o'r Cyngor. Bydd hyn yn dod â 200 o staff i'r ardal gan ddarparu incwm blynyddol sylweddol.

Symudodd swyddfa'r Crwner rhanbarthol yn ei chyfanrwydd o swyddfeydd yng Nghaerdydd ac Aberdâr i adeilad gwag y Cyngor yn Stryd y Llys, Pontypridd.

Cafodd 57 o staff eu hadleoli o swyddfa ddeulawr y Cyngor yn Fairway Court i ddau leoliad a oedd yn berchen i'r Cyngor. Roedd y swyddfa yma yn gartref dros dro i 117 o staff tra roedd gwaith gwella'n cael ei gynnal ar un o swyddfeydd mawr y Cyngor. Bydd lle i 550 o staff yn yr adeilad newydd, sef cynnydd o 150, a hynny o ganlyniad i'r ffaith fod modd i bobl weithio'n hyblyg. Cafodd y 117 o staff eu hadleoli o swyddfeydd y Cyngor yng Nghanolfan Menter y Cymoedd. Roedd hyn yn golygu bod modd i'r Gwasanaeth Addysg ar y Cyd symud yno a daeth yn safle a oedd yn creu incwm drwy gael ei rentu.

Wrth symud Gwasanaeth Etholiadol y Cyngor i leoliad canolog mwy addas, mae'n haws storio deunydd a chadw cofnodion ac mae'n fwy hygyrch. Roedd hyn yn golygu bod swyddfa 200m sgwâr ar gael, sydd bellach â 57 o staff ynddi.

Mae'r Tabl dros y dudalen yn nodi'r swyddfeydd gwag.

Tabl 4 Swyddfeydd Gwag 2016/18

	Disgrifiad o'r Adeilad	% o ôl troed swyddfeydd	Dyddiad gadael	Gwaredu/Prydlesu
4007	Canolfan Gynghori Tai, Heol Gelliwastad, Pontypridd	1.36%	08/06/2017	Defnyddiwyd yn swyddfa safle ar gyfer prosiect Bro Taf, a dros dro gan staff maes gwasanaeth wrth aros i gael eu hadleoli i adeilad a oedd yn wag yn flaenorol ac yn cael ei adnewyddu
4058	Stryd y Llys (1) Pontypridd	1.98%	24/03/2016	Wedi'i brydlesu i'r Trydydd Sector ar 5/5/2016
4112	Swyddfeydd Bwrdeistrefol / Neuadd y Dref y Pentre	2.52%	15/7/2016	Wedi'i werthu mewn Arwerthiant 22/12/2017 Derbyniad Cyfalaf £60 mil
4035	Neuadd y Dref Aberpennar	1.94%	21/10/2016	Gwag
T0060	Tŷ Pennant Catherine's Corner, Pontypridd	2.93%	21/10/2016	Ildio Prydles yn gynnar 08/11/2016
4056	Stryd y Llys (2) Pontypridd	3.31%	27/1/ 2017	Wedi'i feddiannu gan Wasanaeth y Crwner a Gwasanaeth Etholiadol y Cyngor
13008	Canolfan Heddfan	4.09%	20/07/2018	Wedi'i werthu mewn Arwerthiant 24/08/2018 Derbyniad Cyfalaf £605 mil

O ganlyniad uniongyrchol i'r Strategaeth Llety, mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r broblem gynyddol o storio'i ffeiliau. Bellach, mae dros 6500 o focsys o ffeiliau a gweithredoedd teitl y Cyngor yn cael eu storio'n drefnus yn un o swyddfeydd mawr, canolog y Cyngor, ar ôl i'r lle gael ei ddefnyddio'n wael yn flaenorol. Mae cynnydd o ran defnyddio system godio bar electronig er mwyn rheoli'r broses o gael gafael ar ffeiliau/gweithredoedd, yn ogystal â'u dychwelyd a'u dinistrio, yn unol â pholisïau cadw ffeiliau'r Cyngor. Mae codio bar y gweithredoedd teitl yn gyflawn.

2.3.2 Cynigion ar gyfer cyfnod y Cynllun Presennol

Mae'r Cyngor hefyd wedi gadael dau adeilad ychwanegol yn wag cyn y dyddiad targed, gan sicrhau gostyngiad o tua 18.14% yn arwynebedd llawr eu swyddfeydd. Bydd y Cyngor yn gadael Fairway Court pan ddaw'r brydles bresennol i ben yn 2019. Ceir manylion yn y tabl dros y dudalen:

Tabl 5 Swyddfeydd i'w gadael yn wag 2019/20

Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN)	Disgrifiad o'r Adeilad	% o ôl troed swyddfeydd	Dyddiad Gadael Arfaethedig	Gwaredu/Prydles u
T0069	Uned 2 Fairway Court	3.13%	Mehefin 2019	Prydles yn dod i ben drwy dreigl amser
4125	Canolfan Menter y Cymoedd	3.39%	6 Gorffennaf 2018 Nodyn – Gwag yn gynt na'r disgwyl	Wedi'i feddiannu gan y Gwasanaeth Addysg ar y Cyd

Mae cyfleoedd yn codi i adleoli'r garfan TGCh fawr a'r ganolfan ddata o un o adeiladau'r Cyngor . Mae'r safle, sydd â 240 o staff, wedi'i nodi ar gyfer y rhaglen Gofal Ychwanegol ac felly mae angen iddo fod yn wag.

Ar gam nesaf y strategaeth, bydd y Garfan Eiddo Corfforaethol yn cydweithio â'r carfanau TGCh er mwyn datblygu'r agenda Gweithio'n Hyblyg ymhellach fel bod modd lleihau nifer y swyddfeydd yn y portffolio.

Mae Cynllun Trawsnewid Digidol cyffredinol y Cyngor wedi bod ar waith ers mis Ionawr 2016 ac mae wedi arwain at weithredu strategaeth weithio'n hyblyg y Cyngor. Mae hyn yn cefnogi'r strategaeth llety trwy leihau nifer y desgiau sy'n cael eu defnyddio gan staff o ganlyniad i'r cynllun desgiau gwag, ac yn lleihau faint o le storio sydd ei angen ar draws lleoliadau'r Cyngor.

Ar hyn o bryd, mae 8 o gyfleusterau 'desgiau gwag' ar gael ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae'r lleoliadau wedi'u nodi yn y Tabl isod:

Tabl 6 Cyfleusterau Desgiau Gwag

Llyfrgell Aberdâr
Canolfan Hamdden Llantrisant
Canolfan Chwaraeon Cwm Rhondda Fach
Llyfrgell Treorci
Tŷ Glantaf
Canolfan Menter y Cymoedd
Tŷ Elái
Bronwydd

Yn sgil gweithio ar y cyd gan y Cyngor a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, cafodd cais ei gyflwyno am gyllid gan Raglen Gydweithredu Cymru ar Asedau, er mwyn prynu 250 o synwryddion ynghyd â'r hawl i ddefnyddio system feddalwedd, "Occupeye", sy'n

dadansoddi sut mae gofod yn y gweithle yn cael ei ddefnyddio. Mae'r data sy'n dod i law yn golygu bod modd ystyried ymhellach ad-drefnu swyddfeydd a lle bydd modd eu rhannu. Mae'r system "Occupeye" bellach yn cael ei defnyddio i nodi desgiau sydd ddim yn cael eu defnyddio, a bydd yn rhan annatod o'r rhaglen gweithio hyblyg/defnyddio gofod.

O ran storio ffeiliau, bydd cynigion i barhau i ddod â nhw ynghyd yn Nhŷ Elai yn cael eu cyflwyno yn 2018/19. Mae'r system godio bar er mwyn rheoli a dinistrio ffeiliau'n ganolog yn golygu bod modd eu sganio ac yn caniatáu i'r Cyngor weithio mewn dull electronig heb bapur.

Mae'r strategaeth swyddfeydd wedi golygu bod angen symud llawer o ddodrefn ac offer a'u storio yn y tymor byr a'r tymor hir. Yn flaenorol, mae'r Cyngor wedi defnyddio adeiladau a oedd yn wag ar y pryd i storio dodrefn ac offer dros dro neu yn ei dro. Er mwyn storio'r eitemau yma a'u symud yn gyflym, cymerodd y Cyngor brydles 2 flynedd ar uned ddiwydiannol fach.

Mae opsiynau i ail-ddylunio'r dodrefn sydd yn cael ei storio ar hyn o bryd yn cael eu harchwilio. Mae'n bosibl y bydd hyn yn creu stoc o ddesgiau a chypyrddau o faint addas ar gyfer gofynion gweithio hyblyg, gan fod angen llai o le.

Mae'r gostyngiad o ran nifer y mannau cyfarfod wedi arwain at gynnig sy'n cael ei dreialu i ganiatáu i'r holl staff archebu ystafelloedd ar draws y portffolio drwy system ganolog Inform.

2.4 Canolfannau Cymuned

Mewn perthynas ag adeiladu cymunedau cydnerth a'r broses o ymyrryd yn gynnar ac atal, mae dull y Cyngor yn cynnwys datblygu Canolfannau Cymuned sy'n darparu ystod o wasanaethau i drigolion mewn un neu nifer o adeiladau agos at ei gilydd mewn cymdogaethau sy'n flaenoriaeth. Bydd y cyfleusterau yma yn cefnogi dull ataliol sy'n galluogi unigolion a theuluoedd i gael gafael ar gymorth cyn gynted â phosibl i atal problemau rhag cynyddu.

Bydd y Canolfannau Cymuned yn cynnwys ystod o wasanaethau wedi'u darparu gan y sector cyhoeddus a gwirfoddol. Bydd dod â'r gwasanaethau ynghyd â gwasanaethau eraill yn well o ran yr hyn mae'n ei gynnig i'r cyhoedd, gan greu arbedion maint o ran costau gweithwyr ac adeiladau. Bydd gwneud defnydd mwy cost-efeithiol o asedau cymunedol ac ail-fuddsoddi adnoddau mewn adeiladau sy'n addas at eu diben yn galluogi gwasanaethau i fod yn gynaliadwy yn y tymor hirach.

Mae deg ardal ddaearyddol o'r Fwrdeistref Sirol wedi'u nodi ac mae dull fesul cam dros dair blynedd wedi'i gynnig er mwyn datblygu 8 i 10 Canolfan a rhwydweithiau cymdogaethau. Mae'r ardaloedd canlynol wedi'u rhestru yn ôl angen, gyda'r ardal sydd â'r angen mwyaf ar y brig:

- Cwm Rhondda Fach
- De Cynon
- Gogledd Cwm Rhondda
- De Cwm Rhondda
- Rhondda Ganol
- Gogledd Cwm Cynon
- Gogledd-orllewin Taf Elái
- Gogledd-ddwyrain Taf Elái
- De-ddwyrain Taf Elái
- De-orllewin Taf Elái

Y gwaith allweddol yw nodi adeiladau posibl y mae modd eu defnyddio'n Ganolfannau. Mae'r gwaith yma'n cael ei gynnal ym mhob ardal yn dilyn ymarfer mapio asedau a gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n bodoli eisoes. Y nod yw defnyddio'r adeiladau mewn ffordd sy'n gost-effeithiol ac yn effeithlon ac sy'n dod ag asedau cymunedol ynghyd i sicrhau bod modd cynnal gwasanaethau trwy ddefnyddio asedau sy'n bodoli eisoes mewn ffordd wahanol.

Mae Canolfan Cymuned sy'n cael ei redeg gan y Cyngor ym Mhlaza'r Porth sy'n cynnwys llyfrgell, cyfleusterau gofal plant, busnesau hyfforddi preifat a'r ganolfan IBobUn. Mae caffi yn cael ei sefydlu a'i osod ac mae disgwyl iddo agor yn ystod 2018/19.

Bydd Canolfan Ddydd Santes Fair ar brydles i Age Connects. Bydd yn cynnwys caffi, ystafelloedd i'r gymuned, canolfan wybodaeth/cyngor, meddygfa a gwasanaeth trin traed.

Mae canolfan a fydd yn cael ei redeg gan y Cyngor wedi'i gynnig ar gyfer hen Ganolfan Oriau Ddydd Aberpennar. Bydd yn cynnwys llyfrgell, ystafelloedd i'r gymuned a chaffi.

Bydd hen Ysgol Fabanod Glyrhedynog yn Ganolfan Cymuned ar brydles i grŵp o'r trydydd sector, a bydd y Cyngor yn cymryd is-brydles yno ar er mwyn darparu llyfrgell. Bydd y Ganolfan yn darparu gofal plant, llyfrgell a swyddfeydd Cymunedau am Waith, yn ogystal ag ystafelloedd i'r gymuned. Mae disgwyl arwyddo'r brydles cyn diwedd 2018 yn amodol ar gytuno ar gyllid.

2.5 Gwasanaethau a Rennir

Cafodd Adroddiad Astudiaeth Cynllun Peilot Cwm Taf "Dull Rhanbarthol o Gydweithio" ei gynnal gan Cushman Wakefield ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf (a Llywodraeth Cymru) a'i gyhoeddi yn 2017. Roedd yr adroddiad wedi cynnwys nifer o awdurdodau a gwasanaethau cyhoeddus, er enghraifft yr Heddlu a'r Gwasanaethau Ambiwlans, gyda RhCT yn brif awdurdod. Yr argymhellion allweddol o'r adroddiad oedd:

- Cynllun Peilot Rhanbarthol Cwm Taf ar gyfer rheoli asedau rhanbarthol
- Rheoli asedau strategol eiddo corfforaethol Cwm Taf
- Sefydlu Bwrdd Eiddo Rhanbarthol
- Cysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch diffygion o ran adnoddau

Mae'r bwrdd wedi'i sefydlu a chyfarfodydd wedi'u trefnu.








Nod y rhaglen yw cydweithio'n rhanbarthol mewn perthynas â darparu gwasanaethau ac adrefnu adeiladau sefydliadau er mwyn lleihau costau a gwella gwasanaethau.





2.6 Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif

2.6.1 Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band A

Mae cynnydd da wedi parhau ar draws y rhaglen gyfan fel sy'n cael ei nodi yn Nhabl 6 isod. Mae cyfarfodydd Grŵp Llywio'r Rhaglen yn parhau, ynghyd â chyfarfodydd Blaen-gynllunio a Chynllunio Cyfalaf Addysg dros dro i sicrhau bod y rhaglen gyfan yn cael ei monitro a'i rheoli yn unol â'r amserlen a'r gyllideb sydd wedi'i chytuno arni. Cyllideb y rhaglen yw £175 miliwn.

Tabl 7 Prosiectau Ysgolion yr 21ain Ganrif Band A

Prosiect:	Dyddiad Targed Cwblhau:	Cynnydd:
Prosiect 1 – Ailddatblygu Safle Sobell Ysgol uwchradd newydd i 1600 o ddisgyblion, cyfleusterau hamdden newydd i'r gymuned.	Mai 2015 (Ysgol)	Wedi'i gwblhau 
Prosiect 3 – Ailddatblygu Ysgol y Pant Ysgol i 1400 o ddisgyblion, bloc o'r Saithdegau wedi'i adnewyddu, dymchwel adeilad Rhaglen Arbennig Consortiwm Awdurdodau Lleol a chael gwared ar yr holl adeiladau dros dro.	Mawrth 2017 (Ysgol)	Wedi'i gwblhau 
Prosiect 4 – Y Porth 3-16 adeilad newydd ac adnewyddu'r adeilad presennol i ddarparu llefydd i 330 o ddisgyblion cynradd ac 810 o ddisgyblion uwchradd.	Awst 2018	Wedi'i gwblhau 
Prosiect 5 – Canol Cwm Cynon – Ysgol gynradd newydd i 270 o ddisgyblion.	Awst 2018	Wedi'i gwblhau 
Prosiect 6 – Tonyrefail 3-19 adeilad ysgol newydd yn bennaf i ddarparu llefydd i 300 o ddisgyblion cynradd ac 1,190 o ddisgyblion uwchradd.	Awst 2018	Gwneud cynnydd da 
Prosiect 7 – Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg – Tonyrefail Ailwampio'r ysgol gynradd bresennol at ddefnydd newydd.	Hydref 2018	Gwneud cynnydd da 
Prosiect 8 – Tonypandy 3-16 adeilad newydd ac adnewyddu'r adeilad presennol i ddarparu llefydd i 480 o ddisgyblion cynradd a 780 o ddisgyblion uwchradd.	Awst 2018	Wedi'i gwblhau 

Prosiect 10 – Ysgol Gynradd Treorci – Ymestyn 5 ystafell ddosbarth, darparu ystafell staff sy'n addas ar gyfer yr ysgol gyfan (fwy o faint).	Awst 2015	Wedi'i gwblhau 
Prosiect 11 – Ysgol Gynradd y Cymer – Ymestyn ac adnewyddu adeiladau	Tachwedd 2018	Gwneud cynnydd da 
Prosiect:	Dyddiad Targed Cwblhau:	Cynnydd:
Prosiect 12 – Ysgol Gynradd Llwyncelyn – Ailwampio'r ysgol gynradd bresennol at ddefnydd newydd.	Medi 2018	Gwneud cynnydd da 
Prosiect 13 – Treorci 11 – 19 Adeiladu bloc gwyddoniaeth newydd ac adnewyddu'r bloc presennol.	Awst 2018	Gwneud cynnydd da 

Mae hen Ganolfan Chwaraeon Michael Sobell wedi'i dymchwel ac mae'r stadiwm athletau newydd wedi'i hadeiladu yn unol â'r rhaglen ddiwygiedig. Roedd cynnydd da ar brosiectau 4, 5 ac 8 a chwason nhw eu trosglwyddo i'r meddianwyr yn unol â'r rhaglen.

Mae prosiectau 7 a 12 wedi cychwyn yn unol â'r rhaglen ac ar hyn o bryd maen nhw'n gwneud cynnydd da o ran eu cwblhau o fewn yr amserlen a gafodd ei chytuno arni.

Mae cynnydd da ar brosiectau 6 a 13 ac mae cam 1 ar y ddau brosiect wedi'i drosglwyddo yn unol â'r rhaglen. Fodd bynnag, mae cam 2 a'r camau dilynol wedi eu gohirio ychydig oherwydd gwaith annisgwyl. Mae dyddiad cwblhau gwreiddiol Prosiect 11 hefyd wedi ei ohirio o ganlyniad i waith annisgwyl. Mae dyddiad targed diwygiedig wedi'i gytuno arno gyda'r holl randdeiliaid.

Mae'r garfan Eiddo Corfforaethol yn parhau i ddefnyddio adnoddau penodol i reoli'r rhaglen ac yn defnyddio gweithdrefnau cadarn i fonitro cynnydd a chyflawni prosiectau. Mae rhaglenni prosiect unigol yn bwydo i raglen feistr ac mae adolygiadau rheolaidd yn cael eu cynnal gyda'r garfan Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Mae'r garfan Eiddo Corfforaethol wedi gweithio'n agos gyda charfanau Cynllunio, Priffyrdd, Caffael, Cyllid a ThGCh yn ystod gwaith datblygu'r dyluniad mewn cyfarfodydd Llywodraethwyr ac achlysuron ymgynghori ysgolion ar gyfer pob un o'r prosiectau.

2.6.2 Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r Rhaglen Amlinellol Strategol mewn egwyddor ac mae'r rhestrau o gynlluniau wedi'u cynnwys yn nhabl 7 ac 8 isod. Gan fod angen cynnal proses

ymgyngori gynhwysfawr, mae pob cynllun yn ddiennw ar hyn o bryd. Mae gwaith ymchwil cychwynnol ar yr opsiynau lefel uchel wedi llywio'r Rhaglen Amlinellol Strategol. Cam nesaf y broses fydd cynnal astudiaethau dichonoldeb manwl ar y safleoedd pan fydd y broses ymgynghori wedi dod i ben a phan fydd adborth wedi'i gynnwys yn y cynigion.

Mae'r prosiectau'r Rhaglen Amlinellol Strategol wedi'u rhannu'n brosiectau wedi'i hariannu trwy Gyfalaf lle mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu 50% at gost gyffredinol y prosiect, a phrosiectau wedi'u hariannu gan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM) lle mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu 75% at gost gyffredinol gwaith adeiladu a bywyd y prosiect am y 25 mlynedd nesaf. Mae Tabl 7 isod yn cynnwys pob prosiect 'Cyfalaf'. Cyfanswm eu gwerth yw £86.23 miliwn. Mae Tabl 8 isod yn cynnwys pob prosiect MIM. Cyfanswm eu gwerth adeiladu yw £81.65 miliwn. Mae'r dyddiadau cwblhau targed yn ddangosol yn unig ar hyn o bryd ac maen nhw'n ddarostyngedig i ganlyniad y broses ymgynghori statudol, astudiaethau dichonolrwydd manwl a chael Caniatâd Cynllunio priodol.

Tabl 8 Prosiectau wedi'u Hariannu trwy Gyfalaf (CAP)

Prosiect: (CAP)	Dyddiad Targed Cwblhau:	Cynnydd:
CAP 1 Dymchwel yr ysgol bresennol ac adeiladu ysgol newydd i 450 o ddisgyblion ynghyd â chyfleuster Dechrau'n Deg newydd integredig	Medi 2022	Gwneud cynnydd da <input checked="" type="checkbox"/>
CAP 2 Ymestyn 4 ystafell ddosbarth ar gyfer 100 o ddisgyblion yn yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg bresennol	Medi 2022	Gwneud cynnydd da <input checked="" type="checkbox"/>
CAP 3 Ymestyn ac adnewyddu'r ysgol bresennol i ddarparu lle i ysgol gynradd ar gyfer 150 o ddisgyblion, ysgol feithrin i 30 o ddisgyblion ac adeiladu ysgol ganol newydd	Rhagfyr 2022	Heb ei ddechrau <input type="checkbox"/>
CAP 4 Ysgol Gynradd newydd ar gyfer 480 o ddisgyblion, ysgol feithrin i 60 o ddisgyblion ac adeiladu ysgol ganol newydd	Rhagfyr 2022	Heb ei ddechrau <input type="checkbox"/>
CAP 5 Dymchwel yr ysgol bresennol ac adeiladu ysgol gyfrwng Gymraeg newydd i 360 o ddisgyblion cynradd a 60 o ddisgyblion meithrin.	Rhagfyr 2022	Heb ei ddechrau <input type="checkbox"/>
CAP 6 Bloc o ystafelloedd dosbarth newydd (estyniad) ar gyfer 250 o ddisgyblion	Rhagfyr 2022	Heb ei ddechrau <input type="checkbox"/>
CAP 7	Rhagfyr 2022	Heb ei ddechrau

Bloc o ystafelloedd dosbarth newydd		<input type="checkbox"/>
CAP 8 Bloc newydd i 200 o ddisgyblion (estyniad) a neuadd chwaraeon	Mai 2023	Heb ei ddechrau <input type="checkbox"/>
CAP 9 Bloc o ystafelloedd dosbarth cyfrwng Cymraeg newydd	Medi 2023	Heb ei ddechrau <input type="checkbox"/>

Tabl 9 Prosiectau Wedi'u Hariannu Drwy'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM)

Prosiect: (MIM)	Dyddiad Targed Cwblhau:	Cynnydd:
MIM 1 Dymchwel yr ysgol bresennol ac adeiladu ysgol gynradd newydd i 300 o ddisgyblion	Medi 2024	Heb ei ddechrau <input type="checkbox"/>
MIM 2 Dymchwel yr ysgol bresennol ac adeiladu ysgol gynradd newydd i 480 o ddisgyblion	Medi 2024	Heb ei ddechrau <input type="checkbox"/>
MIM 3 Adeiladu ysgol gynradd newydd i 390 o ddisgyblion	Medi 2024	Heb ei ddechrau <input type="checkbox"/>
MIM 4 Dymchwel yr ysgol bresennol ac adeiladu ysgol gynradd newydd i 480 o ddisgyblion	Medi 2024	Heb ei ddechrau <input type="checkbox"/>
MIM 5 Dymchwel yr ysgol bresennol ac adeiladu ysgol gynradd newydd i 420 o ddisgyblion	Medi 2024	Heb ei ddechrau <input type="checkbox"/>
MIM 6 Dymchwel yr ysgol bresennol ac adeiladu ysgol gynradd newydd i 360 o ddisgyblion	Medi 2024	Heb ei ddechrau <input type="checkbox"/>
MIM 7 Dymchwel rhan o'r ysgol bresennol a'i hymestyn er mwyn adeiladu ysgol gynradd i 540 o ddisgyblion	Medi 2024	Heb ei ddechrau <input type="checkbox"/>
MIM 8 Adeiladu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg i 300 o ddisgyblion	Medi 2024	Heb ei ddechrau <input type="checkbox"/>
MIM 9 Dymchwel yr ysgol bresennol ac adeiladu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd i 420 o ddisgyblion	Medi 2024	Heb ei ddechrau <input type="checkbox"/>

2.7 Ailddatblygu Canolfan Siopa Bro Taf

Mae prosiect ailddatblygu hen Ganolfan Siopa Bro Taf yn gynllun adnewyddu uchelgeisiol gwerth £50miliwn. Canlyniad y prosiect bydd adeiladu tri adeilad ar gyfer swyddfeydd yn bennaf. Yn rhan o'r prosiect fydd cymysgedd o swyddfeydd gyda champfa a llyfrgell.

Mae'r garfan Eiddo Corfforaethol yn gweithio'n agos â'r garfan Cynllunio ac Adfywio i gyflawni cam nesaf Prosiect Ailddatblygu Bro Taf. Cafodd contract i baratoi'r safle ar gyfer y gwaith ei gwblhau yn ystod Ionawr a Mawrth 2018 er mwyn gosod pyst y seiliau yno. Dechreuodd y gwaith contract ar 26 Mawrth 2018 ac mae'r gwaith gosod pyst y seiliau a'r is-strwythur wedi mynd rhagddo'n dda.

Mae Swyddogion Grŵp Llywio'r Prosiect a Bwrdd y Prosiect yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd ac yn darparu cyfarwyddyd/sicrwydd ar gyfer y prosiect. Mae cyfarfodydd cynnydd, cyfarfodydd â rhanddeiliaid a gweithdai yn cael eu cynnal ar hyn o bryd yn ystod y broses ddylunio ac adeiladu.

2.8 Adfywio

Mae adfywio Canol Trefi yn cael ei ddefnyddio fwyfwy er mwyn ysgogi busnesau a phobl i ddod yn ôl yno a chyfrannu at ffyniant, twf a chydlyniant cymunedol. Mae rheoli asedau strategol yn chwarae rôl bwysig wrth "greu lleoedd", trwy lunio sut mae manau cyhoeddus yn edrych ac yn teimlo ac yn eu troi'n gymunedau mwy bywiog a chynaliadwy.

Yn ystod oes y cynllun yma, byddwn yn nodi a chaffael eiddo strategol i gynorthwyo'r broses adfywio. Bydd hyn yn creu sail portffolio o fuddsoddiadau i hwyluso'r nod yna.

Adran 3 Rheoli Cyfleustodau

Mae gyda'r garfan Eiddo Corfforaethol Garfan Ynni bwrpasol i reoli portffolio ynni'r Cyngor. Mae'r dull 'Siop Un Stop' yma yn goruchwyllo sut mae ynni'n cael ei brynu, ei ddefnyddio a'i storio. Mae'r Garfan Ynni yn gweinyddu a monitro cyfrifon ynni'r Cyngor, er mwyn sicrhau'r gwerth gorau i'r awdurdod.

Gyda meddalwedd Rheoli Ynni SystemsLink, mae'r data ynni ar gael i ddefnyddwyr trwy borth y Web Module. Drwy gysylltu â'r porth, mae modd i ddefnyddwyr weld faint o ynni maen nhw wedi'i ddefnyddio a gweld data anfonebau, sy'n amhrisiadwy o ran annog ymwybyddiaeth a newid mewn ymddygiad.

3.1 Rheoli Ynni

Mae'r ynni sy'n cael ei ddefnyddio drwy ddarparu gwasanaethau trwy ei bortffolio eiddo yn gost sylweddol i'r Cyngor. Er gwaethaf gwelliannau sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, mae ynni yn costio tua £4.8M. Felly mae'r Cyngor wedi ymrwmo i wella effeithlonrwydd ynni yn ei safleoedd, yn ogystal â lleihau allyriadau Carbon Deuocsid.

Y nod yw ceisio mabwysiadu arfer gorau wrth reoli ynni, lleihau'r defnydd, dileu gwastraff ynni, a thrwy hynny, cyfrannu'n gadarnhaol tuag at gyflawni rhwymedigaethau newid yn yr hinsawdd cenedlaethol a rhyngwladol yn y DU.

Bydd hyn yn cynnwys yr amcanion canlynol:

- Lleihau'r defnydd o ynni, ynghyd ag allyriadau carbon yn adeiladau'r Cyngor.
- Cynyddu'r cyflenwad o ynni adnewyddadwy sy'n cael ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddadwy.
- Nodi a hyrwyddo'r defnydd o gynlluniau ynni adnewyddadwy lleol a chymunedol pellach a ffynonellau a thechnolegau ynni cynaliadwy o fewn eiddo'r Cyngor a'r gymuned leol.
- Gweithio gyda sefydliadau partner o'r Sectorau Cyhoeddus, Preifat a Gwirfoddol i gyflenwi cynlluniau rheoli ynni a chynhyrchu pŵer o ffynonellau adnewyddadwy.
- Sicrhau bod modd i bob adran o'r gymuned, gan gynnwys staff y Cyngor, y cyhoedd, busnesau a grwpiau cymunedol gael gafael ar gyngor ar gyngor o effeithlonrwydd ynni a thrafnidiaeth, a chodi ymwybyddiaeth o'r materion yma. Gweithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, i ddatblygu a gweithredu'r Polisi Rheoli Ynni.

3.1.1 Mesur a Chasglu Data

Prif swyddogaeth unrhyw system rheoli ynni yw sicrhau ei fod wedi'i seilio ar ddata cywir o ran defnyddio ynni. Yn ogystal â chysoni anfonebau ynni, bydd modd defnyddio'r data yma at ddibenion adrodd neu i ddatblygu rhaglenni er mwyn defnyddio ynni mewn ffordd fwy cost-effeithiol.

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn technoleg i Ddarllen Mesurwyr Deallus yn Awtomatig (AMR) a thechnoleg sy'n nodi'r defnydd o ynni bob hanner awr ar gyfer llawer o'i fesurwyr ynni. Mae'r dechnoleg yma'n caniatáu i'r cwmnïau cyfleustodau gael data cywir gan fesuryddion ar gyfer biliau a mesur y defnydd o ynni. Mae disgwyl bydd y dechnoleg mesur newydd yma yn gwneud arbedion i bob safle drwy godi ymwybyddiaeth a hybu gwell defnydd o ynni. Bydd y data yma ar gael drwy'r System Rheoli Ynni SystemsLink.

Mae Llywodraeth y DU wedi pennu bod rhaid cyfnewid yr holl fesuryddion ynni traddodiadol yn y DU gyda'r Mesuryddion deallus diweddaraf erbyn diwedd 2019. Mae mesuryddion deallus yn caniatáu i'r cyflenwyr gael mynediad i'r mesuryddion newydd o bell i gael data misol cywir ar gyfer paratoi eu hanfonebau.

3.1.2 Newid yn Ymddygiad Staff

Bydd y Cyngor yn parhau i geisio nodi cyfleoedd i ddylanwadu ar weithredoedd staff yn y maes yma, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael. Gyda mynediad i'r modiwl gwe SystemsLink newydd, bydd modd i reolwyr adeiladau fewngofnodi i weld data ynglŷn â'u defnydd o ynni a data ynghylch eu hanfoneb cyfleustodau.

3.1.3. Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos (DEC's)

Mae Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos yn angenrheidiol o dan ddeddfwriaeth Llywodraeth San Steffan. Mae'n rhaid i bob adeilad sydd dros 250metr² o faint sy'n cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd ac sydd o dan reolaeth y Cyngor arddangos Tystysgrif Ynni i'w Arddangos. Mae Carfan Ynni'r Cyngor yn sicrhau bod adeiladau'r Cyngor yn cydymffurfio. Mae hefyd yn defnyddio'r ystadegau sy'n cael eu casglu er mwyn nodi'r potensial ar gyfer cynlluniau arbed ynni.

3.2 Buddsoddi i Arbed

Mae'r Cyngor wedi bod yn buddsoddi'n weithredol i wella effeithlonrwydd ynni ei safle dros nifer o flynyddoedd. Mae'r gwaith yma wedi cael ei ariannu gan raglen Arbed Ynni Buddsoddi i Arbed RhCT. Mae buddion y gwelliannau'n cael eu mesur drwy newidiadau yn y defnydd o ynni mewn adeiladau'n dilyn gwaith gwella. Er enghraifft, dyma'r arbedion sydd wedi'u rhagweld a'r arbedion gwirioneddol dros y blynyddoedd diwethaf mewn tabl.

Tabl 10 – Arbed Arian drwy Fuddsoddi mewn Cynlluniau Arbed Ynni

Blwyddyn	Cyfanswm Buddsoddiad y	Cyfanswm Arbedion dros yr Flwyddyn y
2014/15	£311,655	£74,605
2015/16	£863,989	£192,308
2016/17	£990,381	£203,608
2017/18	£718,671	£193,397

3.3 Cynlluniau Ynni

Mae ystod o ffrydiau gwaith eraill ar waith sydd wedi'u bwriadu i wella'r defnydd o ynni. Mae'r rhain yn cynnwys:

Cynlluniau Ynni Adnewyddadwy Mwy – Mae'r Cyngor a Llywodraeth Cymru yn edrych yn barhaus ar brosiectau ynni adnewyddadwy posibl ac yn annog buddsoddiad i gefnogi ymgyrch y Cyngor i ddarparu gwasanaeth carbon niwtral. Bydd y Cyngor yn ystyried yr achos busnes dros fuddsoddi, yng nghyd-destun ei Raglen Gyfalaf a'r Strategaeth Ariannol.

Mae'r Cyngor yn asesu pob parcel o dir sydd ar gael i'w hystyried ar gyfer caeau solar mawr a phrosiectau tyrbinau gwynt er mwyn cynyddu ei bortffolio ynni adnewyddadwy ymhellach.

Technoleg Newydd – Mae'r garfan ynni bob amser yn chwilio am dechnoleg ac arloesedd newydd er mwyn dod â chysyniadau newydd ar gyfer ynni adnewyddadwy i RCT. Mae gosod technoleg cell danwydd newydd fel rhan o'n portffolio, wedi agor y drws i gyfleoedd newydd i ddatblygu hydrogen ar gyfer cynhyrchu trydan a gwres.

3.4 Lleihau Carbon

3.4.1 Y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon (CRC)

Mae'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon yn gynllun adrodd gorfodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor bennu, cofnodi ac adrodd yn flynyddol, allyriadau carbon deuocsid sy'n deillio'n bennaf o ddefnyddio trydan a nwy naturiol yn adeiladau'r Cyngor.

O dan y newidiadau a gafodd eu cyhoeddi yn ystod Datganiad Cyllideb Llywodraeth y DU yn 2016, bydd y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yn dod i ben yn 2020 (ynghyd â'r Ardoll Newid yn yr Hinsawdd).

Bydd trefn dreth fusnes amgylcheddol newydd yn cael ei sefydlu a fydd yn seiliedig ar dreth fydd yn cael ei chodi am bob uned o ynni sy'n cael ei gyflenwi i'r cwsmer. Bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi Papur Ymgynghori ar y cynllun newydd maes o law.

Bydd y Cyngor yn parhau i fodloni ei rwymedigaethau o dan yr Ymrwymiad Lleihau Carbon wrth geisio lleihau costau, i'r graddau y mae hyn yn ymarferol.

3.4.2 Yr Ardoll Newid yn yr Hinsawdd

Mae'r Ardoll Newid yn yr Hinsawdd yn cael ei godi ar bob cyflenwad o danwydd neu ynni sydd i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion annomestig neu anelusennol.

O dan y newidiadau a gafodd eu cyhoeddi yn ystod Datganiad Cyllideb Llywodraeth y DU yn 2016, bydd yr Ardoll Newid yn yr Hinsawdd yn dod i ben yn ei ffurf bresennol yn 2020 (ynghyd â'r Cynllun Ymrwymiad Lleihau Carbon).

Bydd cyfundrefn dreth fusnes amgylcheddol newydd yn cael ei sefydlu. Bydd hyn wedi ei seilio ar yr hen gynllun Ardoll Newid yn yr Hinsawdd, h.y. codi treth ar bob uned o ynni sy'n cael ei gyflenwi i'r cwsmer.

Bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi Papur Ymgynghori ar y cynllun newydd maes o law.

3.5 Rheoli Dŵr

3.5.1 Cefndir

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn defnyddio Dŵr Cymru ar gyfer cyfleustodau dŵr a gwastraff, ac yn gwario ychydig llai na miliwn o bunnau am y gwasanaeth. Serch hynny, mae gan y Cyngor 460 o safleoedd gyda 970 o adeiladau gweithredol. Bydd pob un o'r rhain â chyfrif dŵr/gwastraff ei hun ac yn gwsmer unigol gyda Dŵr Cymru.

Mae Polisi Rheoli Dŵr y Cyngor wedi cael ei gynnwys yn Atodiad 6.

3.5.2 'Systemslink'

Y nod yw trosglwyddo holl gyfrifon Cyngor RhCT i system rheoli ynni 'SystemsLink' lle bydd biliau yn cael eu talu trwy system gyfunol a fydd yn cefnogi gwelliannau eraill i'r modd y mae'r Cyngor yn rheoli ei ddefnydd o ddŵr a'r seilwaith. Serch hynny, o ganlyniad i systemau mesur a bilio cyfredol Dŵr Cymru, fydd y broses drosglwyddo ddim yn un seml a bydd gofyn am fuddsoddiadau sylweddol yn y seilwaith a'r systemau gan Ddŵr Cymru er mwyn i ni gyrraedd ein nod.

3.5.3 Mesurau arbed dŵr

Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda Dŵr Cymru yn y gorffennol ar ymgyrch i leihau'r defnydd o ddŵr a rheoli gwastraff. Cafodd ein safleoedd sy'n defnyddio'r mwyaf o ddŵr eu hasesu a chafodd mesurau arbed dŵr eu gweithredu. Mae rhaglen dreigl o waith adnewyddu ysgolion wedi gweld cyflwyno tapiau gwthio, gyda thapiau â synhwyrdd electronig awtomatig. Mae toiledau ar wahân i doiledau staff wedi cael teclyn 'cisterniser' wedi gosod ynddyn nhw er mwyn lleihau'r cylchoedd fflysio a systemau awtomatig eraill. Yn sgil hyn, llwyddodd y Cyngor i arbed arian sylweddol ac ers hynny, mae'r mesurau arbed dŵr yma wedi cael eu cyflwyno yn holl brosiectau a gwaith ailwampio'r garfan Cynnal Corfforaethol.

3.5.4 Prosiectau Adeiladu Newydd gyda Rhagoriaeth BREEAM

Yn ddiweddar, mae rheoliadau adeiladau wedi cael eu diwygio er mwyn arbed ynni a dŵr ac mae hynny wedi golygu datblygiadau mewn gwasanaethau awtomatig. Mae strategaethau arbed dŵr o'r radd flaenaf (gyda systemau darganfod gollyngiadau) wedi cael eu rhoi ar waith mewn nifer o brosiectau adeiladu newydd y Cyngor. Mae'r systemau yma'n ddrud, a dim ond ar safleoedd mwy lle gellir peidio â sylwi ar ollyngiadau dros gyfnodau hir o amser, y mae modd

cyfiawnhau'r rhain. Mae'r systemau yma'n bwydo'n ôl i System Rheoli Adeiladau ac yn ffurfio rhan o system darganfod problemau dŵr yn gynnar a all arbed gwerth miloedd o bunnau o ddŵr yn y pendraw. Mae'r lefel yma o fonitro systemau, yn ogystal â'r systemau tynnu dŵr awtomatig, yn cael eu hystyried fel y dull mwyaf effeithiol o reoli dŵr ac maen nhw'n ddelfrydol ar gyfer prosiectau BREEAM sydd o faint digonol i gyfiawnhau System Rheoli Adeiladau a chyflogi staff i reoli'r larymau sy'n dod o'r system. Serch hynny, mae'r math yma o system yn anodd iawn ei gyfiawnhau os yw hi'n cael ei gosod ar ôl i'r adeilad gael ei adeiladu a dydy hi ddim yn addas ar gyfer pob adeilad.

3.5.5. Y Sefyllfa Bresennol

3.5.5.1 Dadreoleiddio Dŵr

Yn 2017, dadreoleiddiwyd cyflenwadau dŵr yn Lloegr ar gyfer cwsmeriaid mwy ond, ar hyn o bryd, does dim cynlluniau i reoleiddio yng Nghymru. Gweledigaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw bod â diwydiant dŵr gwydn a chynaliadwy, sy'n arloesol ac yn effeithlon, yn parhau i ddenu buddsoddiad hirdymor ac yn cadw biliau cwsmeriaid yn fforddiadwy i gwsmeriaid Lloegr. Bydd cyflwyno mwy o gystadleuaeth fanwerthu yn Lloegr drwy'r Mesur Dŵr yn helpu i gyflawni hyn. Ar hyn o bryd mae hyn yn digwydd yn Lloegr ond bydd yn cael effaith ar Dŵr Cymru gan fod ganddyn nhw ardaloedd cyflenwi ar hyn o bryd yn Lloegr a bydd rhaid iddyn nhw addasu eu systemau yn unol â hynny a darparu buddion ar gyfer cwsmeriaid yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor RhCT, o ganlyniad.

Mae Dŵr Cymru hefyd yn cydnabod bod rhyw fath o ddadreoleiddio yn bosiblwydd yn y dyfodol yng Nghymru ac felly'n paratoi i fodloni'r gofynion a all gael eu gosod arnyn nhw ac mae hyn wedi'u hannog i adolygu eu systemau a gwneud eu systemau yn addas ar gyfer y dyfodol. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion yma, mae Dŵr Cymru a Chonsortium Awdurdodau Lleol Cymru wedi dod ynghyd fel Is-grŵp ynni gyda Charfan Mesuryddion Dŵr Cymru a NPS Energy er mwyn cydweithio i ddod o hyd i rwystrau a chael atebion ar eu cyfer. Yn ystod cyfarfodydd Consortium Awdurdodau Lleol Cymru, cafodd nifer o faterion eu codi sy'n ymwneud ag anawsterau darllen mesuryddion, rheoli data, bilio cyfunol a'r posibilrwydd o ddarllen mesuryddion yn awtomatig.

3.6 Rheoli'r Safle

Er gwaethaf y defnydd cynyddol o dechnoleg, mae rôl Rheolwr / Goruchwyliwr y Safle yn dal yn un pwysig. Mae angen i ddefnyddwyr ynni gymryd rhan weithredol er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon. Mae gan bob rheolwr safle gyfrifoldeb i sicrhau bod eu staff yn gweithredu arferion rheoli ynni da.

Mae rheoli ynni effeithiol yn dechrau drwy sicrhau bod anfonebau ynni yn gywir a bod mesuryddion ynni'n cael eu gwirio'n rheolaidd er mwyn

sicrhau bod y maes gwasanaeth dim ond yn talu am yr ynni mae'n ei ddefnyddio.

Adran 4 – Rheolaeth Weithredol o Bortffolio Eiddo RhCT

4.1 Rôl Rheolwr yr Adeilad

4.1.1 Dyletswyddau Cyffredinol Rheolwr yr Adeilad

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i sicrhau bod yr holl adeiladau gweithredol yn cael eu rheoli'n ddiogel ac yn unol â deddfwriaeth. Er mwyn cyflawni hyn, mae gan bob adeilad sy'n cael ei ddefnyddio aelod o staff uwch sydd wedi'i benodi o fewn y gwasanaeth sy'n defnyddio'r adeilad er mwyn cydlynu a rheoli gweithgaredd ar y safle.

Mae modd cael hyd i bolisiâu sy'n ymwneud ag lechyd a Diogelwch a swyddogaethau Rheolwyr Adeiladau yn y dogfennau canlynol sydd ar gael gan garfan Adnoddau Dynol:

- Canllaw Rheolwyr Safle ar gyfer lechyd a Diogelwch mewn Swyddfeydd
- Canllaw Rheolwyr Safle ar gyfer lechyd a Diogelwch mewn Canolfannau Oriau Dydd
- Canllaw Rheolwyr Safle ar gyfer lechyd a Diogelwch mewn Cartrefi Gofal Preswyl
- Polisi Rheoli Contractwyr

Mae'r garfan Ystadau Corfforaethol yn cadw cofrestr o reolwyr adeilad ar gyfer pob adeilad sy'n cael ei ddefnyddio gan y Cyngor. Mae'r wybodaeth yn cael ei chadw yng nghronfa ddata rheoli ystadau'r garfan Ystadau Corfforaethol, Technology Forge.

4.1.2 Canllawiau ar gyfer Rheolwyr Adeiladau

Mae'r Gweithgor Rheoli Asedau Corfforaethol wedi llunio nodyn cyfarwyddyd cryno sy'n nodi'r gweithgareddau cyffredinol ar gyfer rheolwyr adeiladu allweddol. Dydy hyn ddim yn ymestyn nac yn addasu'r cyfrifoldebau fel y'u nodir mewn deddfwriaeth a'r arweiniad manwl sydd wedi'i gynhyrchu gan adran Adnoddau Dynol.

Mae'r nodyn cyfarwyddyd yn Atodiad 7.

4.2 Rheoli Eiddo

4.2.1 Cyflwr Cyffredinol y Portffolio

Mae portffolio eiddo'r Cyngor yn cynnwys eiddo sydd wedi'i drosglwyddo o Gynghorau blaenorol yn bennaf. Mae'r adeiladau'n amrywio o ran oedran ac arddulliau pensaernïol. O ganlyniad, mae modd i bortffolio eiddo'r Cyngor gyflwyno heriau cynnal a chadw penodol.

Mae cyflwr presennol y portffolio, fel y cafodd ei adrodd i Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru ym mis Medi 2017, yn cael ei ddangos yn y tabl isod:

Tabl 11 – Cyflwr y Portffolio ym mis Medi 2017

Ysgolion RhCT

Categori	Diffiniad	%
A	Da	16.5
B	Boddhaol	44.5
C	Gwael	35.8
Ch	Gwael iawn	2.9

Adeiladau'r Cyngor ar wahân i Ysgolion

Categori	Diffiniad	%
A	Da	6.1
B	Boddhaol	49.5
C	Gwael	12.9
Ch	Gwael iawn	1.1
Dim categori		30.3

Mae'r asesiad yma wedi ei seilio'n rhannol ar arolygon cyflwr (lle maen nhw ar gael) ac fel ymarferion bwrdd gwaith fel arall.

£54.5 miliwn yw'r ffigur ar gyfer gwaith cynnal a chadw ar gyfer ysgolion RhCT sydd wedi ôl-gronni. Mae disgwyl bydd y ffigur ar gyfer adeiladau sydd ddim yn ysgolion tua £20 miliwn.

Bydd y Cyngor yn parhau i reoli cyllidebau cynnal a chadw ar sail angen a blaenoriaeth, er mwyn sicrhau bod adeiladau sy'n cael eu defnyddio mewn cyflwr boddhaol. Bydd y Cyngor yn ceisio gwneud y gorau o gyllidebau cynnal a chadw, i'r graddau y mae adnoddau'n caniatáu. Yn ogystal, bydd y Cyngor yn ceisio lleihau'r portffolio yn gyffredinol, trwy'r gwahanol ffrydiau gwaith sydd wedi cael eu gosod allan yn y cynllun yma.

4.2.2. Cyllid ar Gyfer Gwaith Cynnal a Chadw

Mae cael digon o gyllid ar gyfer gwaith cynnal a chadw adeiladau yn parhau i fod yn her i'r Cyngor. Yn ymarferol, mae angen cyfran uwch o'r gyllideb i ariannu tasgau cynnal a chadw adweithiol, yn hytrach na gwaith cynnal a chadw sydd wedi'i gynllunio, nag sy'n ddelfrydol. Mae angen blaenoriaethu targedu gwaith cynnal a chadw yn ofalus.

Mae carfan cynnal a chadw arbenigol yn gweithredu o fewn adran Eiddo Corfforaethol gan roi cyngor i reolwyr gweithredol a deiliaid cyllideb yn ogystal â rheoli rhai agweddau'n uniongyrchol. Mae'r cyfrifoldeb am gyllidebau refeniw a chorfforaethol ar gyfer cynnal a

chadw wedi'i ddatganoli i gyfres o ddeiliaid cyllideb ar draws y Cyngor. Yn ymarferol, mae rhaglenni gwaith penodol yn cael eu cytuno'n flynyddol rhwng rheolwyr gwasanaeth a gweithwyr technegol arbenigol.

Mae gweithredu rhaglenni gwaith cynnal a chadw yn gofyn am gydlynu rolau rhwng rheolwyr safleoedd a swyddogion corfforaethol.

Bydd y Cyngor yn parhau i wneud y mwyaf o effaith buddsoddiad cynnal a chadw trwy flaenoriaethu a thargedu gweithgarwch mewn meysydd allweddol. Mae cydgysylltu â blaenoriaethau'r gwasanaeth yn rhan hanfodol o'r broses yma.

4.2.3. Profion Statudol/Aseidiadau Risg

Fel perchennog a defnyddiwr eiddo, mae gan y Cyngor rwymedigaethau penodol i reoli rhai cydrannau a phrosesau o fewn adeiladau y mae'n gyfrifol amdany'n nhw. Mae esiamplau yn y tabl isod:

Tabl 12 Enghreifftiau o Brofi Statudol/Aseidiadau Risg

Rheoli Asbestos
Aseidiadau risg ar gyfer legionella
Aseidiadau risg tân
Profion cadernid nwy
Arolygu systemau trydanol a chyfarpar cludadwy
Gwiriadau diogelwch ar gyfer lifftiau
Larymau tân a goleuadau argyfwng.

Mae cyfres o weithdrefnau wedi cael eu sefydlu er mwyn bodloni ei rwymedigaethau a chofnodi bod hyn wedi digwydd. Yn fras, mae'r strategaeth ar gyfer rhwymedigaethau portffolio eang (er enghraifft, arolygon asbestos ac aseidiadau risg legionella) i gael eu rheoli gan arbenigwyr technegol o fewn y Gyfarwyddiaeth Eiddo Corfforaethol a chamau gweithredu penodol sy'n cael eu trefnu gan reolwyr adeiladu. Mae aseidiadau risg tân yn cael eu caffael ar ran Rheolwr yr Adeilad gan adran Cynnal a Chadw Corfforaethol o'r Gyfarwyddiaeth Eiddo Corfforaethol. Mae gofyn i reolwr yr adeilad adolygu'r adroddiad a gweithredu unrhyw argymhellion.

Mae trefniadau tebyg ar gael i ysgolion â chyllidebau sydd wedi datganoli os maen nhw'n dewis "prynu'n ôl" i mewn i wasanaethau'r Cyngor.

Bydd y Cyngor yn parhau i reoli'r cydrannau a'r prosesau yma'n weithredol ac yn parhau i fod yn sensitif i newidiadau mewn rheoleiddio trwy gydol cyfnod y cynllun.

Adran 5 – Cyflenwi Gwasanaethau : Materion Gweithredol Allweddol

5.1 Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau

5.1.1 Nod

Mae Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau yn darparu cyswllt strategol allweddol rhwng cynllunio gwasanaethau a rheoli asedau. Mae'n hollbwysig bod yr holl Gynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau mewn fformat cyson er mwyn darparu data ystyrlon i gynorthwyo gyda diweddariad parhaus y Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol.

Tri phrif bwrpas y Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau yw i:

- Diffinio'r eiddo sydd ei angen i gyflawni amcanion y gwasanaeth;
- Cymharu gofynion i'r portffolio cyfredol;
- Nodi meysydd allweddol ar gyfer newid dros oes y cynllun.

5.1.2 Dull Cynhyrchu

Mae Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau yn cael eu llunio gan Uwch Reolwyr Gwasanaethau yn bennaf ac maen nhw'n seiliedig ar flaenoriaethau gweithredol gwasanaethau'r Cyngor. I gynorthwyo'r broses, cafodd templed safonol ei ddatblygu ar gyfer Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau trwy'r Gweithgor Rheoli Asedau Corfforaethol.

Mae'n hollbwysig cael proses effeithlon ac effeithiol ar gyfer dal anghenion a gofynion y gwasanaeth. Er mwyn symleiddio'r broses o lunio Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau, mae ffurflen ar-lein wedi cael ei datblygu a'i threialu ac mae adborth wedi ei dderbyn drwy'r Gweithgor Rheoli Asedau Corfforaethol. Bydd y ffurflen ar-lein yn disodli'r templed papur yn ystod 2018/2019.

Mae'r broses yn cael ei chefnogi gan y garfan rheoli eiddo. Maen nhw'n adolygu'r cynlluniau er mwyn blaenoriaethu penderfyniadau'n ymwneud ag eiddo er mwyn bodloni nodau ac amcanion corfforaethol.

Mae pob Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaethau'n cael ei ddiweddarau'n flynyddol ym mis Rhagfyr er mwyn bod ar gael fel sail ar gyfer y fersiwn diweddaraf o'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol blynyddol.

Roedd themâu clir ar draws y Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau ac yn y cyfarfodydd ar gyfer y cynlluniau yma gydag uwch swyddogion y meysydd gwasanaeth:

- Angen lleihau ar y nifer o adeiladau er mwyn cefnogi gwell gwasanaethau
- Rhagor o ddefnydd o weithio hyblyg i gefnogi gwell gwasanaethau
- Storio ffeiliau

- Diffyg gwaith cynnal a chadw
- Cyd-leoli gwasanaethau

5.2 Gweithgorau Portffolio Eiddo Gwasanaethau

Yn ystod 2017/18 cafodd gweithgorau unigol eu sefydlu ar gyfer y meysydd gwasanaeth i redeg law-yn-llaw â'r broses o lunio Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaethau. Mae'r rhain er mwyn caniatáu ar gyfer adolygiad gwasanaeth mwy strategol o'r portffolio eiddo tir ac adeiladau sy'n cael eu dal gan y gwasanaethau. Mae'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o'r maes gwasanaeth ac o'r Gyfarwyddiaeth Eiddo Corfforaethol. Mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rheolaidd i drafod materion sy'n benodol i achosion ynghyd â materion cyffredinol. Mae gweithgorau wedi cael eu sefydlu ar gyfer gwasanaethau Hamdden ac Addysg. Erbyn diwedd 2018/19 bydd pob gwasanaeth sydd â phortffolio yn rheoli eu gwasanaethau priodol yn ôl y dull yma.

Adran 6 Cyflawni Rheoli Asedau Strategol

6.1 Data

6.1.1 Cronfa Ddata Rheoli Asedau Corfforaethol

Mae rheoli data eiddo yn hanfodol i gynnal a gwella hygyrchedd gwybodaeth ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud ag eiddo, defnyddwyr gwasanaeth, aelodau, partneriaid a'r cyhoedd.

Mae data eiddo'r Cyngor yn cael ei gadw ar 'Technology Forge', system rheoli data sydd wedi'i seilio ar wybodaeth graidd am bob adeilad y mae'r Cyngor yn berchen arno. Mae hyn yn cynnwys adeiladau sy'n cael eu dal o dan rydd-ddeiliadaeth ac o dan lesddaliadaeth. Mae'r system yn cael ei rheoli gan Adran Wybodaeth am Eiddo'r Cyngor sy'n rhan o Gyfarwyddiaeth Eiddo Corfforaethol.

Mae system Technology Forge yn cael ei gefnogi gan system fapio electronig y Cyngor. Mae hyn yn rheoli'r data mewn haenau ac yn rhoi mynediad at wybodaeth portffolio mewn ffordd weledol sy'n seiliedig ar GIS a hefyd yn rhoi mynediad i ddata arall y Cyngor megis Priffyrdd a Hawliau Tramwy.

6.1.2 Cofrestr Asedau

Mae Rheoliadau Cyfrifyddu yn ei gwneud hi'n ofynnol i ailbriso asedau'n gyfnodol. Rhaid i bob corff cyhoeddus ymgymryd ag ailbriso eu tir ac adeiladu asedau o leiaf bob tair blynedd.

Prif bwrpas yr ailbriso yw sicrhau bod asedau'r Cyngor yn adlewyrchu gwerth cywir y portffolio eiddo ac yn cydymffurfio â rheoliadau cyfrifyddu priodol. Mae'r broses hefyd yn rhoi cyfle i ystyried y strategaeth a gwerth asedau allweddol.

Mae'r ailbrisió hefyd yn cynnwys prisiad at ddibenion yswiriant er mwyn sicrhau bod asedau'r Cyngor yn cael digon o sylw.

Yn ychwanegol at yr ailbrisió sydd wedi'i raglennu, mae'n ofynnol i'r ymgynghorwyr ailbrisió rhai adeiladau y mae'r Cyngor yn ystyried sydd wedi cynyddu mewn gwerth yn ystod y flwyddyn ariannol o ganlyniad i waith gwella ac unrhyw adeiladau sydd wedi cael niwed.

6.1.3 Asedau'r Sector Gyhoeddus yn y Gronfa Ddata Gwasanaeth Mapio Gwybodaeth Eiddo Electronig (e-PIMS)

Mae Llywodraeth Cymru wedi noddi cronfa ddata o asedau er mwyn annog rhagor o gydlyniant yn y sector gyhoeddus yng Nghymru. Mae'r wybodaeth yn cael ei chadw ar system reoli data electronig perchnogol, Gwasanaeth Mapio Gwybodaeth Eiddo Electronig (e-PIMS). Mae'n cynnwys rhestr o leoliadau eiddo yn seiliedig ar fapiau, yn ogystal â gwybodaeth gefndirol am faint, defnydd, daliadaeth, ayyb. Mae manylion cyswllt ar gael ar gyfer perchennog pob eiddo.

Amcan y system yw gwella'r wybodaeth gyfunol ynglŷn â pherchnogaeth asedau'r sector gyhoeddus a thrwy hynny hwyluso rhannu cyfleusterau a hybu ymagwedd gydweithredol at ddatblygu strategol.

6.2 Cyflawniad a Phrosesau

Mae angen inni fesur ein perfformiad i sicrhau bod y camau rydyn ni'n eu cymryd yn arwain at welliant mesuradwy ac mae angen i ni ddefnyddio'r data i barhau i wella'r gwasanaeth.

6.2.1 Ymgorffori'r Garfan Rheoli Ystadau a'r Garfan Materion Cyfraith Eiddo

Ymunodd y Garfan Materion Cyfraith Eiddo â'r Adran Eiddo Corfforaethol ym mis Ionawr 2016. Mae hyn wedi hwyluso integreiddio rhwng y garfan rheoli Ystadau a'r carfanau materion eiddo cyfreithiol sy'n arwain at wasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol trwy symleiddio trafodion a gwella cyfathrebu a phrosesau.

6.2.2 System Rheoli Achosion

Mae'r system rheoli achosion, Evolution, sy'n cael ei defnyddio gan y Garfan Materion Cyfraith Eiddo i reoli ei achosion nawr hefyd yn cael ei defnyddio gan y garfan Eiddo Corfforaethol, gyda'r bwriad o greu proses mwy effeithiol ac effeithlon. Bydd y system yn cael ei defnyddio i safoni prosesau, i wella cyfathrebu a chyflymu trafodiadau. Bydd y system yn cael ei defnyddio i gasglu a dadansoddi data cyflawniad a bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i wneud y gwasanaeth yn fwy effeithiol.

Atodiad 1 Ffurflen Cynlluniau Rheoli Asedau Strategol

Annwyl Gydweithiwr, mae'n ofynnol i holl wasanaethau'r Cyngor nodi eu hanghenion o ran eiddo ar y ffurflen Rheoli Asedau Strategol. Bydd y garfan Eiddo Corfforaethol yn casglu gwybodaeth berthnasol er mwyn drafftio Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol y Cyngor. Dylai'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu ddangos dealltwriaeth glir o'r eiddo sy'n cael ei ddal a'i ddefnyddio er mwyn mynd i'r afael â materion gwerth am arian, cyflawni gwelliannau i'r gwasanaeth a gwneud penderfyniadau mewn ffordd atebol. Er mwyn inni gyflawni hyn, sicrhewch eich bod chi'n dychwelyd copi wedi'i lenwi o'r ffurflen yma i mi yn y cyfeiriad e-bost isod.

Os oes gyda chi unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â charfan Eiddo Corfforaethol.

Rhan 1: Amdanoch chi

1.1 Enw:

1.2 Adran:

1.3 Gwasanaeth:

1.3 E-bost:

1.4 Rhif Ffôn:

Adran 2: Ynglŷn â'ch Gwasanaeth

2.1 Rhowch ddisgrifiad o broffil y Gwasanaeth a'r strwythur trefniadol.

2.2 Rhowch drosolwg o swyddogaethau eich Gwasanaeth.

2.3 Rhowch drosolwg o ofynion eiddo eich Gwasanaeth.

2.4 Crynhowch amcanion eich cynllun busnes gydag unrhyw eiddo.

2.5 Nodwch unrhyw wendidau yn eich eiddo cyfredol.

2.6 Rhowch unrhyw safbwyntiau sydd gan randdeiliaid.

Adran 3: Addasrwydd y portffolio cyfredol.

3.1 Rhowch ddatganiad am ba mor addas ydych chi'n credu yw eich eiddo cyfredol a nodwch ei gyflwr.

Adran 4: Anghenion eiddo ar gyfer y dyfodol

4.1 Rhowch amlinelliad o'ch anghenion eiddo ar gyfer y dyfodol.

4.2 Rhowch syniad o sut rydych chi'n credu bydd modd cwrdd ag unrhyw anghenion eiddo ar gyfer y dyfodol.

Dyddiad gorffen:

ATODIAD 2 CRYNODEB O GANFYDDIADAU ALLWEDDOL CYNLLUNIAU RHEOLI ASED AU GWASANAETH (Rhagfyr 2017)

Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant Gwasanaethau i Blant

Dyma'r meysydd gwasanaeth sy'n cael eu cynnwys yn y cynllun:

1. Y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar yn cynnwys y Gwasanaeth Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd a'r Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth
2. Gwasanaethau Ymyrraeth Ddwys
3. Gwasanaethau Diogelu a Chymorth
4. Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc Cwm Taf

Mae'r gwasanaethau wedi'u lleoli mewn gwahanol leoliadau yn y Fwrdeistref Sirol ac mae rhan o Wasanaeth Troseddau'r Ifainc yn y llysoedd barn ym Merthyr Tudful.

Mae'r portffolio eiddo yn cynnwys amrywiaeth o eiddo, gan gynnwys canolfannau cyswllt, cartrefi preswyl, a chartref gofal seibiant.

Mae eiddo ym Mhontypridd wedi cael ei ychwanegu at y portffolio'n ddiweddar ar les er mwyn ei ddefnyddio fel canolfan galw heibio ar gyfer cleientiaid dros 16 oed. Mae'r les wedi cael ei ymestyn yn ddiweddar.

Mae'r eiddo yn y portffolio ar y cyfan yn ddigonol a bydd y gwasanaeth yn parhau i adolygu cyfleoedd i ddefnyddio gweithio'n hyblyg/oddi swyddfa ar draws yr adran ac edrych ar oblygiadau hyn o ran swyddfeydd cyfredol y gwasanaeth.

Bydd y gwasanaeth, ar y cyd ag Ystadau Corfforaethol, yn parhau i adolygu'r eiddo yn y portffolio sydd ar brydles cyn i'r brydles ddod i ben.

Mae pwysau yn parhau i leihau o ran storio ffeiliau wrth i'r Gwasanaeth wneud cynnydd gyda'r cynllun sganio sy'n storio ffeiliau papur y gwasanaeth gofal cymdeithasol yn electronig. Mae'r gwaith yma'n parhau a bydd staff yn gweithio yn Swyddfa'r Rhondda Development Agency yn Llwynypïa nes bod y cynllun wedi dod i ben.

Mae ansawdd y swyddfeydd ym Mhrif Swyddfa Cwm Rhondda yn wael. Er bod ychydig o waith cosmetig wedi cael ei wneud, dydy'r gwaith yma ddim yn ddigonol i ddatrys y problemau. Mae ardal y dderbynfa yn arbennig yn achosi pryder, mae'r to'n gollwng mewn nifer o leoedd ac mae llwydni'n tyfu ar rai waliau.

Dydy hi ddim yn ymddangos bod unrhyw gynlluniau cynnal a chadw ar waith ar gyfer adeiladau'r Gwasanaethau ac mae hyn yn arbennig o berthnasol i Lyncornel sydd wedi'i lleoli mewn gwarchodfa natur leol.

Mae problemau cyffredin gyda dail yn disgyn a choed yn gordyfu, mae cynnal a chadw'r ffordd fynediad a'r meysydd parcio hefyd yn achosi problemau ac mae modd i'r rhain arwain at hawliadau'n cael eu gwneud yn erbyn y cyngor.

Mae cyfle i symud allan o Fairway Court sy'n ddarostyngedig i ddod o hyd i adeilad ar gyfer un Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc ar gyfer Cwm Taf ac ar gyfer Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd Cwm Taf.

Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen Adran Eiddo Corfforaethol

Ar hyn o bryd, mae'r garfan yn gweithio mewn un adeilad. Mae tua 120 aelod o staff yn gweithio mewn swyddfeydd ac mae gyda nhw anghenion storio.

Mae'r garfan yn rhoi cynghorion cynhwysfawr i'r Cyngor am y portffolio tir ac eiddo cyfan. Mae swyddogaeth gaffael y Cyngor hefyd yn rhan o'r gwasanaeth.

Yr unig beth sy'n angenrheidiol o ran lleoliad yw bod y carfanau'n hygyrch i wasanaethau eraill ac mae modd iddyn nhw weithio ar draws holl ardal ddaearyddol yr Awdurdod gan wastraffu cyn lleied o amser â phosibl yn teithio.

Does dim rhwystrau strategol i ddarparu gwasanaethau oherwydd y portffolio eiddo sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaeth yma.

Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen Gofal y Strydoedd

Mae gan y gwasanaeth bortffolio eiddo mawr a chymhleth ar gyfer darparu ei wasanaethau.

Mae'r prif safle yn Nhŷ Glantaf, Trefforest (26 aelod o staff) ac mae gweithdy ategol yn Nhŷ Amgen, Llwydcoed, Aberdâr (2 aelod o staff).

Mae angen i'r swyddfeydd fod yn hawdd i'w cyrraedd o'r dderbynfa gan fod llawer o bobl yn galw bob dydd – gyrywyr yn adrodd am broblemau gyda cherbydau, problemau gyda thanwydd, casglu cerbydau sydd wedi'u llogi ayyb.

Mae gan y gwasanaeth 2 weithdy cynnal a chadw cerbydau – mae gan y prif weithdy o leiaf 2 dwll archwilio cerbydau a 3 neu 4 lifft cerbyd trwm ac mae gan y gweithdy ategol 1 twll archwilio cerbydau a lle ychwanegol i weithio ar gerbyd arall gerllaw. Mae'r ddau weithdy angen mannau storio bach i gadw darnau sbâr ar gyfer cerbydau a mannau storio y tu allan ar gyfer olew a hylifau eraill ar gyfer cerbydau, yn

ogystal â sylweddau gwastraff fel metel, olew ayyb. Mae angen mannau y tu allan ar gyfer parcio cerbydau – cyn ac ar ôl trwsio.

Mae angen cael mannau golchi ceir yn y ddau weithdy gan ei fod yn angenrheidiol yn ôl y gyfraith bod gwaelod cerbydau'n lân ar gyfer archwiliadau cylchol. Mae safleoedd tanwydd gyda bynceri mewn 5 depo gwahanol gyda thanciau tanwydd tanddaearol. Mae'r Gwasanaeth yn trwsio dros 450 o gerbydau o geir i lorïau sgip 32 tunnell. Gyda rheolaeth drefnus, mae rhywfaint o le i gymryd rhagor o gerbydau os oes angen.

Mae'r eiddo sydd gan y Gwasanaeth ar hyn o bryd yn ddigonol ar gyfer ei anghenion presennol. Efallai bydd angen ehangu darpariaeth y Gwasanaeth o betrol mewn bynceri yn y dyfodol i fodloni ffactorau cynaliadwyedd wrth gyflwyno cerbydau hybrid i'r fflyd. Ar hyn o bryd, dim ond un tanc petrol sydd gan y Gwasanaeth ym mhrif ddepo'r priffyrdd. Dydy'r tanc ddim yn hygyrch i bawb oherwydd natur y gwaith ar y safle sy'n golygu bod cerbydau mawr ac offer yn cael eu symud o gwmpas. Bydd y cynnydd yma yn faint o betrol sy'n cael ei storio'n dibynnu ar gyfeiriad strategaeth y Cyngor ynghylch cerbydau sy'n defnyddio tanwydd.

Mae'r mannau storio'n fach iawn ond mae'r Gwasanaeth yn ymdopi â'r lle sydd wedi'i ddarparu.

Mae pobl wedi cwyno am blâu o lygod mawr yn Nhŷ Amgen, ond mae natur y gwaith sy'n cael ei wneud yno'n golygu nad oes modd cael gwared â'r broblem yma.

Mae'r gweithdy yn Nhŷ Glantaf yn weddol fodern ac mae unrhyw addasiadau sydd wedi cael eu gofyn amdany'n nhw wedi cael eu gwneud.

Mae'r gweithdy yn Nhŷ Amgen yn llawer hŷn ac efallai bydd o fudd i insiwleiddio a gosod cladin newydd ar y waliau. Mae'n adeilad sydd wedi'i orchuddio ag un haen o fetel sy'n ddrud i'w wresogi.

Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant Carfan Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd

Cyflenwi gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach, Diogelwch Cymunedau a Gwasanaethau Trwyddedu o Dŷ Elai o dan arweiniad Pennaeth Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Chymunedau Diogel. Mae tua 100 aelod o staff ar y safle. Mae'r rhan fwyaf o staff wedi'u dynodi fel gweithwyr ystwyth ac maen nhw'n defnyddio system o ddesgiau poeth yn ôl cymhareb 7:10/8:10.

Darparu Gwasanaeth TCC a Gwasanaeth Diogelu Symudol o'r ystafell reoli ar lawr uchaf Tŷ Sardis. Mae'r gwasanaeth yma hefyd o dan arweiniad Pennaeth Iechyd yr Amgylchedd, Safonau Masnach a Chymunedau Diogel. Mae'n cynnwys tua 20 aelod o staff yn gweithio yn ôl trefn rota dros 24 awr y dydd.

Mae'r mwyafrif o aelodau o staff yn gweithio o Dŷ Elai. Mae gan y gwasanaeth storfeydd cynhwysyddion arbenigol ar gyfer gwenwynau rheoli plâu, storio sylweddau ffrwydrol ac i storio offer beiciau oddi ar y ffordd.

Mae'r ystafell reoli TCC yn Nhŷ Sardis yn cynnwys y ganolfan wyliaidwriaeth ar gyfer dros 160 o gamerâu TCC sydd wedi'u gosod mewn lleoliadau ar draws RhCT. Mae'r ystafell yn cael ei chefnogi gan ganolfan ddata annibynnol yn yr un rhan o'r adeilad.

Does dim gofynion eiddo newydd neu wahanol yn y dyfodol y mae modd ei ragweld.

Does gan ru'n o Amcanion y Cynllun Darparu ofyniad eiddo.

Mae angen adnewyddu cyfleusterau ar y safle yn Nhŷ Elai. Yn benodol, mae rhai ceginau cymunedol mewn cyflwr gwael iawn ac mae angen gwaith cynnal a chadw i rai manau y tu allan i'r adeilad, fel llwybrau, er mwyn sicrhau diogelwch aelodau o staff ar y safle, yn enwedig pan mae hi'n dywyll neu pan mae'r tywydd yn wael.

Mae sylwadau am gyflwr y cyfleusterau yn Nhŷ Elai wedi cael eu derbyn yn rheolaidd gan aelodau o staff. Mae ymarferoldeb y system "comfort cooling" hefyd yn destun pryder gan nad oes modd cadw tymheredd cyson. Mae aelodau o staff yn aml yn profi tymheredd oer neu boeth iawn.

Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant Adran Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned – Y Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn rhan o'r Adran Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned. Mae'r adran yma hefyd yn cynnwys y gwasanaeth Addysg i Oedolion a Gwasanaethau Cymraeg. Mae'r Gwasanaeth yn chwarae rhan allweddol yn y gymuned ac yn darparu mynediad i ystod eang o gyfleusterau, gan gynnwys mynediad i ystafelloedd cyfarfod cymunedol, defnydd o'r rhyngwyd a chyfrifiaduron am ddim, mynediad hawdd at wybodaeth a chyngor, llyfrau a gweithgareddau dysgu.

Bydd Gwasanaeth y Llyfrgelloedd yn cael ei arwain ym mhob agwedd ar ei waith gan yr hawliau craidd sydd wedi eu nodi gan Lywodraeth

Ar hyn o bryd, mae gan Wasanaeth y Llyfrgelloedd 13 o lyfrgelloedd sefydlog ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol, sy'n cynnwys:

tair Llyfrgell Ardal yn Aberdâr, Pontypridd a Threorci; a

deg llyfrgell gangen yn Abercynon, Aberpennar, Glynrhedynog, Hirwaun, Llantrisant, Pentre'r Eglwys, Pont-y-clun, y Porth, Rhydfelen a Thonypandy.

Mae tair llyfrgell deithiol yn gwasanaethu cymunedau a lleoliadau sydd rywfaint o bellter o adeilad llyfrgell leol. Mae llyfrgelloedd teithiol hefyd yn ymweld ag unedau tai lloches. Mae pob taith yn cael ei gwneud bob pythefnos.

Mae gwasanaeth hefyd ar gael i bobl sy'n gaeth i'r tŷ, yn Rock Grounds, ar gyfer y bobl hynny sydd ddim yn gallu mynd i'r llyfrgell neu'r llyfrgell deithiol. Mae cludiant cymunedol hefyd ar gael i lyfrgelloedd penodol ar gyfer y bobl hynny sy'n cael trafferth cyrraedd y llyfrgell.

Mae Gwasanaeth y Llyfrgelloedd i Ysgolion, yn Rock Grounds, yn cynnig gwasanaeth benthyca ac ymgynghori i bob ysgol gynradd yn y Fwrdeistref Sirol, ac mae'n trefnu gweithgareddau a mentrau i blant a phobl ifainc, fel Sialens Ddarllen yr Haf, sy'n ceisio hybu sgiliau llythrennedd a hyrwyddo cariad at ddarllen.

Mae'r adran weinyddol, yn Rock Grounds, yn cyflawni'r holl ddyletswyddau gweinyddol sy'n ofynnol gan y gwasanaeth a chan uwch reolwyr.

Mae gofynion eiddo'r Gwasanaeth, yn gyffredinol, yn ffitio i mewn i ddau faes:

- Cymorth gyda phob cynllun adeiladu ac adnewyddu newydd, gan gynnwys rheoli prosiectau, gwasanaethau dylunio a rheoli costau.
- Cynnal a chadw eiddo gan sicrhau bod ein holl adeiladau yn cael eu cynnal mewn cyflwr diogel ac ein bod ni'n cydymffurfio â Gofynion Statudol.

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i chwilio am gyfleoedd ar gyfer cydleoli er mwyn darparu model gynaliadwy gan ganolbwyntio'n benodol ar Llynrhedynog ac Aberpennar.

Wrth i'r cyngor symud ymlaen gyda'i gynllun i sefydlu canolfannau/hybiau cymunedol, sy'n cynnwys llyfrgelloedd, mewn

mannau penodol er mwyn darparu gwasanaethau mwy effeithiol a chost-effeithlon, efallai bydd rhaid i lyfrgelloedd presennol symud neu gynnwys gwasanaethau eraill yn eu hadeiladau presennol.

Mae cynlluniau presennol yn cynnwys symud llyfrgelloedd Aberpennar a Glynrhedynog.

Mae'r Gwasanaeth yn ymchwilio i ffynonellau cyllid a phartneriaethau newydd y byddai modd eu defnyddio i wella capasiti mewn ardaloedd penodol sydd ddim yn cael digon o adnoddau ar hyn o bryd.

Yn ogystal â gwneud gwaith cynnal a chadw eiddo parhaus, bydd anghenion eiddo'r Gwasanaeth yn y dyfodol yn canolbwyntio ar symud llyfrgelloedd ac adnewyddu canghenau i wella eu cyfleusterau. Mae hyn yn cynnwys symud llyfrgelloedd Glynrhedynog, Aberpennar a Phontypridd, adnewyddu Llyfrgell Tonypany (yn amodol ar gyllid) fel bod ei chyfleusterau'n cael eu gwella er mwyn eu defnyddio gan y gymuned a chan bartneriaid sydd eisiau cynnig gwasanaethau o'r llyfrgell. Bydd ystafell gyfarfod newydd yn cael ei chreu yn Llyfrgell Hirwaun fel bod ei chyfleusterau'n cael eu gwella er budd y gymuned.

Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant Adran Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymuned – Gwasanaeth Addysg i Oedolion

Mae'r Gwasanaeth Addysg i Oedolion yn rhan o Wasanaethau Cymuned ac mae'n darparu addysg i oedolion yn eu cymunedau. Mae mwyafrif y dysgwyr dros 25 oed er bod y gwasanaeth yn ymgysylltu â rhai pobl ifainc rhwng 16 a 24 oed.

Dim ond un Ganolfan sy'n cael ei rhedeg gan y gwasanaeth – Canolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg. Mae mwyafrif y cyrsiau'n cael eu cynnal mewn llyfrgelloedd neu leoliadau cymunedol eraill, ac nid yw rhai ohonyn nhw'n eiddo i'r Cyngor. Mae'r garfan ganolog wedi'i lleoli'n rhannol yng Ngarth Olwg ac yn rhannol yn Nhŷ Trevithick.

Mae'r Gwasanaeth angen mynediad i lyfrgelloedd a lleoliadau eraill y Cyngor ar gyfer cynnal cyrsiau.

Mae'r mwyafrif o'r garfan wedi'i lleoli yng Ngarth Olwg. Serch hynny, bydd angen cael 12 desg mewn lleoliad ar wahân i Dŷ Trevithick yn y dyfodol.

Does dim diffygion yng Ngarth Olwg fel y cyfryw, ond bydd angen ail-beintio a gosod carped newydd yn y dderbynfa yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Y prif angen fydd ail leoli staff o Dŷ Trevithick i leoliad arall i hwyluso symudiadau swyddfa ehangach.

Mae Canolfan Dysgu Gydol Oes Garth Olwg wedi cynnal ymgynghoriad am barcio yn ddiweddar. Er mwyn gweithredu'r argymhellion yn llawn bydd angen ymgymryd â gwaith adeiladu yn y maes parcio. Y rhan ddrytaf o'r gwaith fydd i ail-lunio'r llinellau parcio er mwyn creu lleoedd parcio ychwanegol i bobl anabl a hefyd i gael gwared â lle parcio i feiciau sydd wedi'i ddylunio'n wael i greu rhagor o leoedd parcio.

Byddai modd i rai aelodau o staff weithio'n fwy hyblyg pe byddai ganddyn nhw offer addas a/neu fynediad at leoedd parcio ar gyfer gweithwyr hyblyg.

Addysg a Dysgu Gydol Oes Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am ysgolion, adeiladau addysgol eraill a'r Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Yn ogystal â bod yn gyfrifol am nifer fawr o ysgolion, mae gan y Gwasanaeth nifer o adeiladau lle mae cyfleoedd addysg a chwaraeon ehangach ar gael ar gyfer y gymuned.

Blaenoriaethau cyffredinol y Gwasanaeth yw cyflwyno Rhaglen Foderneiddio ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif Band A, parhau i fuddsoddi mewn ysgolion er mwyn eu moderneiddio a'u gwella, cynnig profiadau dysgu gwyb i'r disgyblion, moderneiddio'r cyfleusterau arlwy ym yr ysgolion a'u troi'n rhai sydd yn debyg i fwytai neu siopau coffi.

Cyflwyno Achosion Busnes ar gyfer Rhaglen Foderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif Band B.

Parhau i ad-drefnu ein heiddo ysgolion er mwyn arbed arian ac ailfuddsoddi yn y Rhaglen Foderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Darparu caeau 3G newydd mewn 4 ysgol a fydd ar gael i'w defnyddio yn y gymuned gyda'r nos ac ar y penwythnosau.

Parhau â'n rhaglen o fentrau arbed ynni 'Buddsoddi i Arbed' i leihau ein hynni a'n carbon yn ein safleoedd addysg.

Cynnig Gofal Plant 30 awr a chefnogi darparwyr lle mae bylchau yn y ddarpariaeth mewn rhai mannau yn y Fwrdeistref Sirol.

Bydd y Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth (SAMP) yma felly yn adlewyrchu amcanion strategol y Cyngor ac yn darparu gwybodaeth berthnasol a fydd yn ei gwneud hi'n bosibl gwneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â blaenoriaethu gwariant cyfalaf, er mwyn sicrhau bod eiddo gyda ni sy'n:

Cynorthwyo a hyrwyddo safonau uchel o addysgu a dysgu, gan ddarparu ysgolion cymuned o safon uchel sy'n gynnes, sych, diogel ac yn addas ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm a darparu addysg gydol oes ar gyfer ein disgyblion, staff a chwsmeriaid eraill.

Darparu cyfleoedd addysgol ar gyfer pob aelod o'n cymuned trwy gydol eu bywydau trwy ddarparu ysgolion, a chyfleusterau addysg i oedolion o safon dda.

Dyma nodau'r Gyfadran Addysg a Dysgu Gydol Oes, mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid:

Adolygu ein stoc eiddo yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod gyda ni ddigon o adeiladau sydd o safon uchel, o'r maint cywir ac sydd yn y lle iawn, gan ystyried yr angen i gynllunio ar gyfer nifer y llefydd sydd eu hangen.

Cysylltu â Phenaethiaid, Llywodraethwyr, Penaethiaid Gwasanaeth a rheolwyr adeiladau i sicrhau bod yr adeiladau yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u bod nhw mewn cyflwr da er mwyn darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer y gymuned maen nhw'n ei gwasanaethu.

Hyrwyddo codi safonau addysgol a lefelau cyrhaeddiad a defnydd mwy helaeth o'n safleoedd addysgol gan y gymuned.

Ailfodelu'r adeiladau fel eu bod nhw'n addas ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm newydd yng Nghymru.

Hyrwyddo cynhwysiant trwy wella mynediad a hwyluso'r defnydd o ysgolion ac adeiladau gan blant ac oedolion o bob gallu i wella cyrhaeddiad a chefnogi dysgu drwy gydol eu bywydau (cydymffurfio â Deddf ADY a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018). Darparu amgylchedd diogel i ddisgyblion, staff, ac aelodau o'r cyhoedd a defnyddwyr ein hadeiladau.

Gweithio mewn partneriaeth gyda'n holl rhanddeiliaid er budd yr holl ddisgyblion, pobl ifainc a dysgwyr gydol oes, a chytuno ar amcanion buddsoddi mewn adeiladau.

Sicrhau'r gwerth gorau ar gyfer ein hysgolion a'n hadeiladau i gyd yn y defnydd o'n hadeiladau cymunedol. Hyrwyddo strategaethau gan sicrhau arfer da o ran cynaliadwyedd, arbed ynni ac effeithlonrwydd ynni.

Nodau'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yma yw:

Darparu fframwaith cytunedig ar gyfer gwneud penderfyniadau ar flaenoriaethau gwario cyfalaf, gan ystyried yn benodol amcanion strategol ar gyfer gwella ysgolion, megis ein Rhaglenni Moderneiddio Ysgolion ac Ysgolion yr 21ain Ganrif. Fydd hyn, fodd bynnag, ddim yn rhwystro'r Cyngor rhag gweithredu'n gyflym lle bydd cyfleoedd yn codi neu pan fydd amgylchiadau annisgwyl yn digwydd.

Gwella safon y cyfleusterau presennol er mwyn diwallu anghenion pob disgybl ac aelod o staff, hwyluso gweithredu'r cwricwlwm a chyfrannu at godi safonau.

Parhau i adolygu'r adeiladau dros ben a'u gwaredu gan ddefnyddio gweithdrefnau a phrotocol cytunedig y Cyngor.

Defnyddio'r adnoddau sydd ar gael lle mae eu hangen fwyaf, a darparu amgylchedd dysgu o safon uchel ar gyfer disgyblion, pobl ifainc a dysgwyr gydol oes.

Ceisio gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael er mwyn diwallu cymaint o'r anghenion mwyaf pwysig ag sy'n bosibl drwy sicrhau ein bod ni'n ymchwilio i bob cyfle i gael arian grant a chymorth ariannol gan yr holl ffynonellau sydd ar gael, a'n bod ni'n paratoi cynigion ac achosion busnes priodol i fodloni gofynion y broses.

Cynorthwyo Penaethiaid, Cyrff Llywodraethu, Awdurdodau Esgobaethol a phob rheolwr adeilad arall i ddatblygu cynlluniau ar gyfer eu hadeiladau er mwyn gwella darpariaeth, codi safonau a hyrwyddo ac annog defnydd gan y gymuned a datblygiad.

Bydd y ffocws ar Addysg yn parhau er mwyn codi safonau yn y lleoliadau blynyddoedd cynnar a'r ysgolion a bydd cynlluniau cadarn yn cael eu datblygu, a refeniw ac adnoddau cyfalaf yn cael eu dyrannu i gyflawni'r blaenoriaethau yma.

Mae Rhaglen Ysgolion yr 21 Ganrif Band A y Cyngor yn parhau i fod yn flaenoriaeth gyffredinol a hynny mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys ehangu Addysg Cyfrwng Cymraeg a chydymffurfio â Deddf ADY a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018).

CYNIGION BUDDSODDI

Bydd Rhaglen Foderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif yn parhau yn 2018/19 yn rhan o gynllun buddsoddi tymor hwy. Yn rhan o'r cynllun hwnnw, mae'r Cyngor yn gweithio tuag at y canlynol:

Dim adeiladau sydd mewn cyflwr gwael erbyn 2024-25

- Trefnu prosiectau yn strategol;

- Rhagor o lefydd cyfrwng Cymraeg;
- Cyfleusterau chwaraeon a chymunedol gwell;
- Gofal plant cofleidiol;
- Agenda gynhwysol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- Ystyriaeth o feysydd polisi LIC.

Bydd prosiectau Band A a amlygwyd yn flaenorol yn Adran 4 y ddogfen, sy'n werth cyfanswm o £160 miliwn, yn parhau i gael eu cyflwyno.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo Rhaglen Amlinellol Strategol Band B y Cyngor o £168m (mewn egwyddor), sy'n cynnwys 19 o brosiectau drafft sy'n cynnwys cymysgedd o:

Dwy ysgol pob oed newydd

Tri estyniad mawr newydd i gynyddu nifer y llefydd cyfrwng Cymraeg mewn un ysgol gynradd a dwy ysgol uwchradd

Dwy ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ychwanegol mewn adeiladau newydd

Deg ysgol gynradd ychwanegol mewn adeiladau newydd

Dau estyniad newydd i ysgolion Cynradd i ddarparu ar gyfer cynnydd yn y galw am lefydd

Bydd Gwaith Cynnal a Chadw Cyfalaf arfaethedig gwerth £6.876 miliwn yn cael ei gwblhau'r flwyddyn ariannol yma.

Bydd y rhaglen yn cynnwys: Adnewyddu'r ceginau	£0.930 miliwn
Gosod ffenestri a drysau newydd	£0.150 miliwn
Gwaith hanfodol	£0.525 miliwn
Ailosod Gwifrau Trydanol	£0.252 miliwn
Diweddarau'r larymau tân	£0.100 miliwn
Adnewyddu'r tai bach	£0.350 miliwn
Deddf Cydraddoldeb / Gwaith Cydymffurfio	£0.225 miliwn
Arolygon Cyflwr Addysg a Dysgu Gydol Oes	£0.075 miliwn
Gosod boeleri newydd	£0.350 miliwn
Adnewyddu toeau	£0.900 miliwn
Gwaith Ymdrin ag Asbestos	£0.819 miliwn
Rhaglen Buddsoddi mewn Ysgolion	£1.850 miliwn
Gwella'r Ysgolion	£0.100 miliwn
Cyfalafu Caledwedd/Meddalwedd a Thrwyddedau	£0.250 miliwn
	£6.876 miliwn

Cyflwr

Mae gan bob ysgol arolygon cyflwr cyfoes sydd wedi'u paratoi gan ein swyddogion technegol, yn dilyn eu hymweliadau rheolaidd ag adeiladau a'u harchwiliadau ohonyn nhw. Caiff y rhain eu diweddarau'n flynyddol yn dilyn ymweliadau â safleoedd ac arolygiadau.

Mae gwaith sydd ei angen i atal ysgol rhag gorfod cau bob amser yn cael ei flaenoriaethu, hynny yw, gwaith sy'n sicrhau ei bod hi'n ddiogel, cynnes ac yn gallu gwrthsefyll y tywydd. Mae gwaith sy'n angenrheidiol o ganlyniad i ddigwyddiadau ac amgylchiadau nad oes modd eu rhagweld, megis tân, llifogydd, ymsuddiad a difrod storm (sydd ddim efallai wedi'u cynnwys yn amodau'r yswiriant), neu waith i sicrhau cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch, neu ofynion deddfwriaethol eraill, er enghraifft, rheoli asbestos, hefyd â blaenoriaeth uchel.

Os yw cyflwr cyffredinol adeilad yn golygu nad yw gwaith trwsio neu ailwampio yn opsiwn cost-effeithiol a hyfyw, bydd adeiladu ysgol newydd (ar safle newydd o bosibl) yn cael ei ystyried.

Addasrwydd

Ystyr 'addasrwydd' yw i ba raddau y mae'r adeilad yn bodloni gofynion y disgyblion, y staff, pobl eraill sy'n defnyddio'r adeilad a chwsmeriaid, a sut mae cyflwr yr adeilad yn cyfrannu at godi safonau'r ddarpariaeth addysg.

Mae'r gwaith cyfalaf sy'n cael ei wneud i wella sefydliadau addysg yn cynnwys cynlluniau i greu adeiladau newydd yn lle rhai symudol neu dros dro (lle bynnag bo hynny'n bosibl), a gwaith i sicrhau bod yr ysgolion yn bodloni eu rhwymedigaethau o ran y cwricwlwm. Mae gwaith cysylltiedig â safleoedd sydd wedi'i nodi mewn adroddiadau arolygu ESTYN hefyd yn cael ei ystyried os gwaith cyfalaf yw e – mae cyngor, arweiniad a chymorth yn cael eu darparu os cyfrifoldeb dirprwyedig yr ysgolion yw'r gwaith.

Mae gwaith i wella hygyrchedd adeiladau, yn arbennig er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cydymffurfio â deddfwriaeth, yn cael ei ystyried i wella addasrwydd adeilad er mwyn diwallu anghenion ei ddefnyddwyr.

Atodiad 3 Asedau Eiddo

Categori'r Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau	Nifer
Canolfannau Ieuencid	2
Celfyddydweithiau, Arddangosfeydd Amgueddfa a Cherfluniau	28
Lleiniau	175
Theatrau	2
Asedau Dros Ben	153
Safleoedd Storio	6
Canolfannau Chwaraeon a Phyllau Nofio	13
Cyfleusterau Chwaraeon	20
Ysgol	130
Cartrefi Preswyl	13
Cyfleusterau Cyhoeddus	40
Man Chwarae	30
Parciau	297
Adeiladau Swyddfa	20
Meysydd Parcio oddi ar y stryd	88
Segur	2
Amgueddfeydd ac Oriolau	3
Amlogfa Llwydcoed	1
Llyfrgelloedd	10
Eiddo ar brydles	27
Tir	436
Cyfleusterau Cegin	1
Eiddo Buddsoddi	1
Cartrefi i'r Henoed	12
Adeiladau Hanesyddol	2
Priffyrdd	411
Safle Garej	112
Troedffyrdd a Llwybrau	159

Atodiad 3 Asedau Eiddo

Categori'r Adran dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau	Nifer
Canolfan Galw Heibio	1
Depos a Gweithdai	12
Meithrinfa Oriau Dydd	9
Canolfannau Oriau Dydd	21
Swyddogion Cymunedau yn Gyntaf	12
Canolfannau Cymuned	46
Safleoedd Mynwent ac Amlogfa	14
Mynwentydd (Adeiladau)	1
Safle Carafanau	1
Gorsaf Fysiau	3
Pontydd	2
Asedau yn cael eu hadeiladu	7
Rhandiroedd	74
Pob ysgol	4
CYFANSWM	2401

Atodiad 4 Rhaglen RhCT Gyda'n Gilydd

Trosglwyddiadau Asedau Cymuned RhCT Gyda'n Gilydd wedi'u cwblhau											
EIDDO/GWASANAETH	ENW'R TENANT/SEFYDLIAD	Statws Cyfreithiol Grwpiau	GWERTHU'R ADEILAD	DERBYNIAD CYFALAF	PRYDLESU	TRWYDDED	TENANTIAETH WRTH EWYLLYS	DYDDIAD DECHRAU'R DDALIADAETH	DYDDIAD DOD I BEN Y DDALIADAETH	HYD CYFNOD Y DDALIADAETH	
Hen Ganolfan Addysg yn y Gymuned Treorci	Too Good To Waste		1	£50,000				19/09/2014			
Llyfrgell y Beddau	Llyfrgell Cymuned y Beddau a Thŷ-nant	Sefydliad Corfforedig Elusennol?			1			08/12/2014	07/12/2035	21 o flynyddoedd	
Canolfan Gelf y Miwni	Canolfan Gelf y Miwni	Menter gymdeithasol sydd ddim er elw			1			21/05/2015	20/05/2040	25 o flynyddoedd	
Llyfrgell y Maerdy	Cyfeillion Glynrhedynog (Friends of Ferndale)	Elusen Gofrestredig / Cwmni Cyfyngedig trwy warant gyda statws elusennol			1			07/12/2015	06/12/2025	10 mlynedd	
Canolfan Gofal Oriau Dydd y Pentre	Canolfan y Pentre	Sefydliad Corfforedig Elusennol			1			12/01/2016	11/01/2041	25 o flynyddoedd	
Hen Lyfrgell Pen-y-graig	Plant y Cymoedd	Cwmni Cyfyngedig trwy warant	1	£80,000				03/03/2016			
Courthouse St, Pontypridd – Pa adeilad	Capacitas / Bright Futures	Sefydliad / Cwmni Gwirfoddol Cyfyngedig trwy warant			1			05/05/2016	04/05/2041	25 o flynyddoedd	
Caffi a tholedau Parc Gwledig Barry Sidings	Bike Doctor / Paul Harris				1			23/06/2016	22/06/2026	10 mlynedd	
Amgueddfa Cwm Cynon	Ymddiriedolaeth Amgueddfa Cwm Cynon	Sefydliad Corfforedig Elusennol			1			30/06/2016	29/06/2041	25 o flynyddoedd	
Ysgol Babanod Rhiwgarn	Cartrefi Rhondda Cynon Taf	Cwmni Cymunedol Cydfuddiannol, ddim er elw – Cymdeithas Diwydiannol a Darbodus, Menter Gymdeithasol				1		03/10/2016	15/09/2017		
Pwll Padlo Gwernifor	Grŵp Amgylcheddol y Darren Las				1			12/10/2016	11/10/2041	25 o flynyddoedd	
Meithrinfa Penygawsi Llantrisant (Greenfield)	Y "Feel Good Factory"	Cymuned Cyfyngedig trwy warant gyda nodau cymdeithasol				1		30/01/2017	28/02/2017	mis	
Tŷ Weindio Pwll yr Hetty					1			10/02/2017	09/02/2047	30 o flynyddoedd	
Parc Ton-teg (Cyrtiau Tennis)	Y Cyng. Lyndon Walker				1			28/02/2017	27/02/2038	21 o flynyddoedd	
Pwll Padlo Penrhiw-ceibr	Pwyllgor Pwll Gerddi Lee				1			18/04/2017	17/04/2027	10 mlynedd	

Pwll Padlo Penrhiw-ceibr	Pwyllgor Pwll Gerddi Lee							29/08/2018	28/08/1943	25 o flynyddoedd	prydles newydd estynedig
Ardal Barcio – wrth ymyl Caffi Cambrian Lakeside	Ymddiriedolaeth Pentref Cambrian (YPC)	YPC – Elusen gofrestredig ddi-elw – Cambrian Lakeside Limited yw'r gangen fasnachu			1			01/06/2017	01/06/2042	25 o flynyddoedd	
Pwll Padlo Pen-y-graig	Cyfeillion Parc Pen-y-graig	Sefydliad Corfforedig Elusennol				1		19/07/2017	19/07/2018	Blwyddyn	
Pwll Padlo Pen-y-graig	Cyfeillion Parc Pen-y-graig	Sefydliad Corfforedig Elusennol				1				Blwyddyn	
Pwll Ynys-y-bŵl (Butchers)	Cyfeillion Pwll Butchers					1		21/07/2017	21/07/2018	Blwyddyn	
Pwll Ynys-y-bŵl (Butchers)	Partneriaeth Adfywio Ynys-y-bŵl					1		20/07/2018	19/07/2025	7 mlynedd	
Canolfan Oriau Dydd Dan Murphy	'Autism Life Centre' – Cwmni Buddiannau Cymunedol	Cwmni Buddiannau Cymunedol				1		06/03/2018	05/03/2028	10 mlynedd	
Pwll Padlo'r Maerdy	Gweithredu dros Bwll Padlo'r Maerdy					1		01/07/2018	30/08/2018	8 wythnos	
Pwll Padlo Treorci	Cyfeillion Parc Treorci	Grŵp Cymunedol a Gyfansoddiwyd				1		01/07/2018	30/08/2018	8 wythnos	
Pwll Padlo Abercynon	Grŵp Gweithredu dros Gofeb Ryfel Abercynon	Sefydliad Corfforedig Elusennol				1					

CYFANSWM

2 15 7 1

Achosion bron â'u cwblhau

Canolfan Oriau Dydd y Santes Fair	Age Connects Morgannwg				1			Medi/Hydref		99 o flynyddoedd	
Canolfan Gymuned Rhydfelen	Plant y Cymoedd							Medi/Hydref		10 mlynedd	
Pwll Padlo'r Pentre (newid y defnydd i Ardal Gemau Aml-ddefnydd)	Canolfan y Pentre							Medi/Hydref		10 mlynedd	
Ysgol Babanod Glynrhedynog	Partneriaeth Glynrhedynog							Hydref		25 o flynyddoedd	

POLISI AR GYFER YSTYRIED CEISIADAU I DROSGLWYDDO ADEILADAU SY'N EIDDO I RCT I SEFYDLIADAU SY'N GWEITHREDU AR SAIL 'DDIM ER ELW'

1. **Diben y Polisi**

Darparu dull cyson ar gyfer ystyried ceisiadau i drosglwyddo adeiladau neu'u gosod ar brydles.

2. **Cymhwysu'r Polisi**

Mae'r polisi yma'n berthnasol i bob cais i drosglwyddo/brydlesu adeiladau'r Cyngor (hynny yw, tir ac adeiladau) i sefydliadau gwirfoddol ac elusennol, a darparwyr gwasanaethau sydd wedi'u nodi'n flaenoriaeth gan y Cyngor, gan gynnwys darparwyr gofal plant masnachol. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau sydd wedi'u cynnig o dan gynllun Trosglwyddo Asedau Cymunedol Llywodraeth Cymru a'r rhai sy'n cael eu hariannu gan ddyraniad diweddar y Gronfa Loteri Fawr.

3. **Cefndir**

Mae'r Cyngor yn berchen ar bortffolio eiddo mawr lle mae'n darparu gwasanaethau ar gyfer y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Yn aml, bydd Adrannau'r Cyngor yn gwneud hyn yn uniongyrchol, ond weithiau bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan sefydliadau eraill sy'n gweithredu ar eu pennau eu hunain neu mewn partneriaeth â'r Cyngor.

Mae achlysuron pan fydd sefydliad cymunedol yn y sefyllfa orau i ddarparu gwasanaeth penodol oherwydd profiad y sefydliad hwnnw neu fynediad at adnoddau (dynol neu ariannol). Er mwyn darparu sylfaen gadarn ar gyfer cynllunio hirdymor ac i gael gafael ar arian grant, bydd sefydliadau cymunedol weithiau'n gofyn i'r Cyngor drosglwyddo rheolaeth ar un o'i asedau eiddo i'r sefydliad hwnnw.

Mae'r Cyngor yn awyddus i weithio gydag eraill i ddarparu gwasanaethau effeithiol trwy amrywiaeth o fecanweithiau cyflwyno. Does dim unrhyw wrthwynebiadau ar sail polisi i drosglwyddo / prydlesu asedau eiddo. Serch hynny, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i reoli ei asedau yn effeithiol yn y tymor hir ac felly, cyn mynd ymlaen, bydd rhaid iddo fod yn gwbl fodlon bod y cynigion ar gyfer y gwasanaeth a'r ased eiddo yn gadarn, yn gynaliadwy a bod modd eu cyflawni yn y tymor hir.

4. Cyflwyno cais am brydles/drosglwyddiad – Y weithdrefn i'w dilyn

A Llythyr o Ddiddordeb Cychwynnol

- Nodi'r eiddo neu rannau o eiddo, gan gynnwys unrhyw gyfleusterau cysylltiedig megis meysydd parcio, mannau agored neu dir ychwanegol ar gyfer adeiladu. Byddai cynllun o gymorth.
- Nodi'r ymgeisydd gan gynnwys ei gyfeiriad cofrestredig, cofrestrif yr elusen (os oes un ar gael), maint, hyd cyfnod y gweithredu, gweithrediadau presennol, dolenni cyswllt i ddarpar bartneriaid eraill (os oes rhai) ac enwau'r unigolion cyswllt.
- Os oes meddianwyr yn yr adeilad eisoes, nodwch berthynas yr ymgeisydd â'r rhain.
- Rhowch ddisgrifiad byr o'r cynnig gan gynnwys rhaglen ddangosol. Nodwch pa gymorth ymarferol neu ariannol y bydd gofyn amdano gan y Cyngor (os oes angen cymorth). Nodwch y canlyniadau a'r manteision penodol y bydd y prosiect yn eu cyflwyno.

B Penderfyniad Cychwynnol

Cymhelliant y Cyngor i waredu eiddo yn y modd yma yw ei helpu i gyflawni ei nodau fel sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Corfforaethol. Mae hefyd yn cynorthwyo'r Cyngor o ran ei gyfrifoldeb i ddarparu gwasanaethau craidd. Bydd y canlyniadau disgwylidig o'r cynigion, felly, yn cael eu hystyried yng nghyd-destun dogfennau strategol allweddol, yn enwedig y Cynllun Cymunedol, y Cynllun Gwella Corfforaethol a'r Cynllun Rheoli Asedau. Mae'r asesiad yma yn hanfodol i'r broses ac arbenigwyr penodol y Cyngor a ddylai ymgymryd ag ef.

- Dydy Asedau Eiddo ddim yn "rhad ac am ddim" a gall eu trosglwyddo ar brydles hir olygu costau uniongyrchol neu anuniongyrchol. Bydd angen i'r rhain gael eu mesur gan Swyddogion y Cyngor a'u cynnwys yn y penderfyniad.

C Wedi'i gymeradwyo ar gyfer y cam nesaf

Nid penderfyniad mewn egwyddor yw hwn i drosglwyddo neu brydlesu ac ni ddylid ei ystyried felly. Mae'n dangos bod y

cynnig yn cyd-fynd yn fras ag amcanion polisi'r Cyngor yn unig a bod dim rhesymau dros beidio â mynd ymlaen i'w ystyried yn fanwl.

D

Cynllun Busnes

Mae'n cael ei gydnabod bydd paratoi Cynllun Busnes dibynadwy yn cynnwys ymdrech sylweddol a chostau posibl. Mae e, fodd bynnag, yn hanfodol i'r broses. Fydd dim modd ystyried cais oni bai fod Cynllun Busnes cadarn sydd wedi'i gostio yn cael ei ddarparu. Rhaid iddo gynnwys y canlynol:

- Manylion am yr holl gostau cyfalaf a sut y bydd modd talu'r costau, gan gynnwys cynllun wrth gefn ar gyfer costau annisgwyl.
- Amlinelliad o'r adnoddau proffesiynol a rheolaethol sydd ar gael i gyflwyno unrhyw waith cyfalaf ac ymgymryd â'r swyddogaethau rheoli / cynnal a chadw cyfleusterau.
- Manylion llawn am lif arian refeniw (lleiafswm o 5 mlynedd) gan gynnwys yr holl ffynonellau incwm a chostau sy'n ymwneud â pherchenogaeth a chynnal a chadw'r eiddo a chyflenwi gwasanaethau. Os oes angen cymorth refeniw, nodwch ffynhonnell a chwantwm y gefnogaeth honno. Y disgwyl yw y bydd angen i'r gweithrediad ddangos ei fod yn hunangynhaliol yn nhermau refeniw.
- Diffinio'r strwythurau llywodraethu a swyddogaethau a chyfrifoldebau y garfan sydd wedi'i chreu i gyflwyno'r prosiect. Nodi a yw'r swyddogaethau yma'n wirfoddol neu a fydd y gweithwyr yn cael eu talu.
- Dangos profiad o weithio mewn partneriaeth ac ymrwymiad i hyn. Yn benodol, nodi sut byddai'r ased eiddo yn cael ei ddefnyddio er budd y gymuned.
- Nodi sut byddai gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol yn cael eu bodloni, er enghraifft, safonau cydraddoldeb, diogelu plant, iechyd a diogelwch, trwyddedu ac ati.
- Dangos yr angen lleol y mae'r prosiect yn ceisio ei ddiwallu a sail y dadansoddiad meintiol a'r ymgynghoriad cyhoeddus.

- Nodi mesur y cyflawniad, y lefelau gwasanaeth, cyfraddau cyfranogi ac ati yn fanwl sy'n sail i'r cynigion.
- Rhoi'r deilliannau meintiol disgwylidig, gan gynnwys y swyddi sydd wedi'u creu, nifer y cyfleoedd dysgu, rhannau o'r gymuned sydd wedi'u cyrraedd ac ati. Dylai hyn gael ei osod yng nghyd-destun y Cynllun Cymunedol a strategaethau lleol eraill.
- Dangos sut y bydd y prosiect yn gynaliadwy yn ariannol ac amgylcheddol.
- Nodi'r risgiau sy'n ymwneud â'r prosiect a'r mesurau lliniaru fydd yn cael eu rhoi ar waith.
- Darparu rhaglen ac amserlen ar gyfer y prosiect. Dylai hyn dynnu sylw at unrhyw waith adeiladu arfaethedig, penderfyniadau ariannu, cyfnod sefydlu a phryd y byddai'r prosiect yn hunangynhaliol.

E Proses Ddilysu

- Mae'n cael ei ragweld y bydd yr holl ragdybiaethau allweddol o fewn y model busnes yn cael eu hasesu o ran eu maint ac yn seiliedig ar broses ddadansoddi gwrthrychol. Efallai y bydd gofyn i'r ymgeisydd roi gwybodaeth ychwanegol i ategu ei gais.

F Ystyriaeth wedi'i rhoi

Mae gan y Cyngor ddyletswydd gyffredinol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i gael y gwerth gorau ar gyfer gwaredu ar ei asedau. Y disgwyliad cyffredinol felly fydd, y bydd gwaredu ag unrhyw ased yn digwydd am ei werth llawn ar y farchnad agored, sydd yn cael ei dalu un ai fel rhent blynyddol neu swm cyfalaf.

Os yw ymgeisydd yn dymuno cynnig rhent/premiwm sy'n llai na'r gwerth ar y farchnad agored, dylai wneud y canlynol:

- Nodi'r swm sy'n cael ei gynnig.
- Esbonio, yng nghyd-destun y Cynllun Busnes, pam na fyddai'n bosibl talu'r gwerth llawn.

Caiff unrhyw gais am daliad llai na'r gwerth ei ystyried gan Gyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor mewn ymgynghoriad â'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Eiddo sydd â chyfrifoldeb dros Eiddo.

5. Ystyriaethau Cyffredinol ynglŷn â'r Polisi

Bydd y materion polisi canlynol yn berthnasol mewn unrhyw achos o fewn y fframwaith polisi yma.

1. Er mwyn helpu i gyflawni amcanion y polisi a hyfywedd hirdymor asedau eiddo, bydd y Cyngor yn cadw rhydd-ddaliad yr eiddo. Bydd unrhyw asedau yn cael eu trosglwyddo ar brydles a bydd hyd y cyfnod yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos. Yn gyffredinol, bydd prydles adeilad presennol yn para am gyfnod o hyd at 25 mlynedd.
2. Bydd prydlesau ar delerau "atgyweirio ac yswirio llawn", hynny yw, bydd yr holl gostau sy'n ymwneud â meddiannu, rhedeg, cynnal a chadw a rheoli yn cael eu talu gan y meddianwyr.
3. Mae angen caniatáu prydles er mwyn i'r cynnig allu symud yn y flaen, hynny yw, mae'n darparu budd penodol megis mynediad at gyllid.
4. Byddai'r ased ar gael yn llawn i'w ddefnyddio gan ystod o grwpiau lleol. Dylai gydymffurfio'n llwyr â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.
5. Dylai'r defnydd o'r ased fod yn gynaliadwy yn amgylcheddol. Dylai hyn fod yn berthnasol i ailwampio yn y dyfodol.

Atodiad 6 Polisi Rheoli Dŵr

2018-20



Wedi'i baratoi gan Jon Arroyo - Rheolwr Ynni
Caffael a Rheoli Ynni
CBS Rhondda Cynon Taf
Ebrill 2018 – Adolygiad 2.1



Strategaeth Rheoli Dŵr

Cefndir

Ar hyn o bryd, mae Rhondda Cynon Taf yn defnyddio Dŵr Cymru ar gyfer dŵr a chyfleustodau gwastraff, ac yn gwario ychydig llai na miliwn o bunnau gyda Dŵr Cymru ar hyn o bryd (2016-17 £939,313.00). Serch hynny, mae gan Gyngor Rhondda Cynon Taf 460 o safleoedd gyda 970 o adeiladau gweithredol. Bydd pob un o'r rhain â chyfrif dŵr/gwastraff ei hun ac yn gwsmeriaid unigol i Dŵr Cymru. Dydy grwpio'r cyfrifon yma ddim yn bosibl i Dŵr Cymru ar hyn o bryd, ond maen nhw'n cydnabod yr angen i gyflwyno system rheoli biliau sy'n cyfuno cyfrifon. Mae awdurdodau eraill yng Nghymru yn yr un sefyllfa ac mae hyn wedi dod yn destun trafod i Gonsortiw Awdurdodau Lleol Cymru. Y nod yw trosglwyddo holl gyfrifon Cyngor RhCT i system rheoli ynni 'SystemsLink' lle bydd biliau yn cael eu talu trwy system gyfunol a fydd yn cefnogi gwelliannau eraill i'r modd y mae RhCT yn rheoli ei defnydd o ddŵr a'r seilwaith. Serch hynny, o ganlyniad i systemau mesur a bilio cyfredol Dŵr Cymru, fydd y broses drosglwyddo ddim yn un seml a bydd gofyn am fuddsoddiadau sylweddol yn y seilwaith a'r systemau gan Ddŵr Cymru er mwyn i ni gyrraedd ein nod.

Yn 2012/13 bu Cyngor RhCT yn gweithio gyda Dŵr Cymru ar ymgyrch i leihau faint o ddŵr oedd yn cael ei ddefnyddio a rheoli gwastraff. Cafodd y safleoedd hynny a oedd yn defnyddio'r mwyaf o ddŵr eu hasesu a chafodd mesurau arbed dŵr eu rhoi ar waith drwy osod dyfeisiau megis tapiau gwthio, falfau hydrolog 'Cistermiser' a systemau awtomatig amrywiol eraill. Yn sgil hyn, llwyddodd y Cyngor i arbed arian sylweddol ac ers hynny, mae'r mesurau arbed dŵr yma wedi cael eu cyflwyno yn holl brosiectau a gwaith ailwampio Cynnal Corfforaethol. Fel proses barhaus mae ein Swyddogion Ynni wedi bod yn gwneud argymhellion lle gallai mesurau arbed dŵr awtomatig fod o fudd ac wedi bod yn cynnwys yr argymhellion hyn yn adroddiadau cynghori Tystysgrif Ynni i'w Harddangos.

Mesurau arbed dŵr wedi'u cyflwyno yng Nghyngor RhCT

Synhwrydd Awtomatig a Thapiau Gwthio

Yn ei raglen dreigl i gynnal a chadw tai bach yr ysgolion, mae'r Cyngor wedi cyflwyno tapiau gwthio fel eitemau safonol, a gosod tapiau gyda synhwrydd electronig awtomatig a falfau switsh togl amgen yn yr Ysgolion Cynradd lle bo angen gwella materion hylendid.

Wrinalau a Falfau Hydrolig 'Cisterniser'

Yn dilyn adolygiad RhCT a'r arweiniad a gafodd ei ddarparu gan ymgyrch Dŵr Cymru, cafodd falfau hydrolig 'Cisterniser' eu gosod yn nhai bach y disgyblion yn yr ysgolion er mwyn lleihau'r cylchoedd tynnu dŵr yn yr wrinalau. Yn 2016, rhoddodd Cyngor RhCT system gyflenwi dŵr solenoid dan reolaeth ar brawf gan ddefnyddio synwryddion symudiad mewn prosiect ailwampio tai bach yn safleoedd addysg y Cyngor. Pan nad oes unrhyw unigolion yn defnyddio'r cyfleusterau am gyfnod penodol o amser, caiff y dŵr ei ddiffodd gan y falf solenoid ac felly mae'r 'Cisterniser' yn aros yn segur a does dim dŵr yn cael ei dynnu ac mae unrhyw dapiau sy'n diferu neu sydd wedi'u difrodi yn peidio â llifo. Oherwydd hynny, dydy'r dŵr ddim yn cael ei ddefnyddio dros y penwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Serch hynny, mae angen cynnal rhagor o waith ar y system awtomatig yma oherwydd bod y synwryddion yma'n hanfodol i'r cyflenwad dŵr ac yn agored i fandaliaeth.

Tynnu dŵr mewn tai bach

Yn y 90au cynnar, cafodd perchnogion busnes a chartrefi bychain eu hannog i gael mesuryddion dŵr wedi'u gosod gan Dŵr Cymru. Cafodd defnyddwyr eu hannog i wneud eu harbedion eu hunain drwy leihau faint o ddŵr roedden nhw'n ei ddefnyddio gan ddefnyddio dyfeisiau arbed dŵr ac ymgyrchoedd newid ymddygiad. O ganlyniad, defnyddiwyd ffyrdd radical o leihau faint o ddŵr oedd yn cael ei dynnu o'r seston, er enghraifft, gosod bric yn y seston neu un o'r dyfeisiau pwrpasol sef 'Hippo block' neu 'Water Buddy'. Serch hynny, bu'r dyfeisiau yma'n creu problemau o ran hylendid ac o ran yr amgylchedd oherwydd bod angen cynnydd yn yr ymyriad cemegol i wneud iawn am y diffyg dŵr a'r angen i dynnu'r dŵr ddwywaith a oedd yn y pendraw yn gwaethygu'r sefyllfa. Erbyn hyn, mae unedau 'Duo Flush' yn cael eu defnyddio sy'n golygu bod modd rheoli faint o ddŵr sy'n cael ei dynnu. Mae'r

unedau 'Duo Flush' wedi datrys y broblem ac wedi cael eu mabwysiadu fel safon diwydiant. Maen nhw'n cael eu defnyddio ledled Cyngor RhCT wrth i sestonau gael eu hadnewyddu.

Mae systemau tynnu dŵr sy'n defnyddio synwryddion wedi cael eu rhoi ar brawf yn rhai o brosiectau mwy Cyngor RhCT ar gyfer ailwampio tai bach. Maen nhw hefyd wedi cael eu cyflwyno i gynlluniau BREEAM er mwyn darparu modd awtomatig mwy hylan o dynnu dŵr heb yr angen i ddefnyddio'r dwylo. Mae'r dechnoleg yma bellach yn cael ei defnyddio'n fasnachol mewn cyfleusterau cyhoeddus mwy ac mae'r gwydnwch wedi gwella'n fawr i oresgyn fandaliaeth a chamddefnyddio.

Prosiectau Adeiladu Newydd gyda Rhagoriaeth BREEAM

Yn ddiweddar, mae rheoliadau adeiladau wedi cael eu diwygio er mwyn arbed ynni a dŵr ac mae hynny wedi golygu datblygiadau mewn gwasanaethau awtomatig. Mae strategaethau arbed dŵr o'r radd flaenaf (gyda systemau darganfod gollyngiadau) wedi cael eu rhoi ar waith mewn nifer o brosiectau adeiladu newydd Cyngor RhCT. Mae'r systemau yma'n ddrud, a dim ond ar safleoedd mwy lle mae hi'n bosibl peidio â sylwi ar ollyngiadau dros gyfnodau hir o amser, y mae modd cyfiawnhau'r rhain. Mae'r systemau yma'n bwydo'n ôl i System Rheoli Adeiladau ac yn ffurfio rhan o system darganfod problemau dŵr yn gynnar a all arbed gwerth miloedd o bunnau o ddŵr yn y pendraw. Mae'r lefel yma o fonitro systemau, yn ogystal â'r systemau tynnu dŵr awtomatig, yn cael eu hystyried fel y dull mwyaf effeithiol o reoli dŵr ac maen nhw'n ddelfrydol ar gyfer prosiectau BREEAM sydd o faint digonol i gyfiawnhau System Rheoli Adeiladau a chyflogi staff i reoli'r larymau sy'n dod o'r system. Serch hynny, mae'r math yma o system yn anodd iawn ei gyfiawnhau os yw hi'n cael ei gosod ar ôl i'r adeilad gael ei adeiladu a dydy hi ddim yn addas ar gyfer pob adeilad.

Y Sefyllfa Bresennol

Dadroleiddio Dŵr

Yn 2017, dadroleiddiwyd cyflenwadau dŵr yn Lloegr ar gyfer cwsmeriaid mwy ond, ar hyn o bryd, does dim cynlluniau i reoleiddio yng Nghymru. Gweledigaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw bod â diwydiant dŵr gwydn a chynaliadwy, sy'n arloesol ac yn effeithlon, sy'n parhau i ddenu buddsoddiad hirdymor ac yn cadw biliau yn fforddiadwy i gwsmeriaid Lloegr. Bydd cyflwyno mwy o gystadleuaeth fanwerthu yn Lloegr drwy'r Mesur Dŵr yn

helpu i gyflawni hyn. Ar hyn o bryd mae hyn yn digwydd yn Lloegr ond bydd yn cael effaith ar Dŵr Cymru gan fod ganddyn nhw ardaloedd cyflenwi ar hyn o bryd yn Lloegr a bydd rhaid iddyn nhw addasu eu systemau yn unol â hynny a darparu buddion ar gyfer cwsmeriaid yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor RhCT, o ganlyniad.

Mae Dŵr Cymru hefyd yn cydnabod bod rhyw fath o ddadreoleiddio yn bosibilrwydd yn y dyfodol yng Nghymru ac felly'n paratoi i fodloni'r gofynion a all gael eu gosod arnyn nhw ac mae hyn wedi'u hannog i adolygu eu systemau a'u gwneud yn addas ar gyfer y dyfodol. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion yma, mae Dŵr Cymru a Chonsortiw Awdurdodau Lleol Cymru wedi dod ynghyd fel 'Mesur Dŵr Cymru' gydag Is-grŵp Ynni NPS i gydweithio i nodi rhwystrau ac atebion. Yn ystod cyfarfodydd Consortiw Awdurdodau Lleol Cymru, cafodd nifer o faterion eu codi sy'n ymwneud ag anawsterau darllen mesuryddion, rheoli data, bilio cyfunol a'r posibilrwydd o ddarllen mesuryddion yn awtomatig.

Ynni Consortiw Awdurdodau Lleol Cymru

Mae'r consortiw yn cynnwys Rheolwyr Ynni profiadol sy'n dod o nifer o Awdurdodau Lleol sydd i gyd wedi profi materion sy'n ymwneud â rheoli dŵr oherwydd mesuryddion sydd ddim wedi'u gosod mewn lleoliadau addas ac oherwydd hynny, yn aml, does dim modd eu darllen nhw. Mae hyn yn arwain at filiau sy'n uwch na'r hyn sydd wedi'i ddefnyddio mewn gwirionedd. Mae materion o'r fath wedi'u nodi a'u cyflwyno i Dŵr Cymru fel rhwystrau i sicrhau rheoli defnydd cywir. Ateb amlwg fyddai awtomeiddio mesuryddion SMART ond gan fod y rhan fwyaf o'r mesuryddion presennol wedi'u gosod yn y ddaear gyda chaeadau concriid neu fetel, mae'r gallu i drosglwyddo data yn gyfyngedig iawn oherwydd cryfder y signal ac mae'r lle sydd ar gael ar gyfer yr offer angenrheidiol yn aml yn gyfyngedig. Serch hynny, mae technoleg yn cael ei datblygu i fynd i'r afael â hyn ar gyfradd fforddiadwy ond oherwydd y cyfyngiadau, dyw'r dechnoleg yma ddim wedi cael ei chyflwyno hyd yma.

Mae is-grŵp y Consortiw wedi cynnal dau gyfarfod ac wedi cytuno i fynd i'r afael â nifer o faterion sy'n ymwneud â'r meysydd allweddol. Cynllun y grŵp yw cytuno ar strwythur cyfrifon addas a threfn mesur sy'n rheoli cyfrifon Cyfleustodau Dŵr yn gywir.

Ar hyn o bryd, mae Carfan Ynni Cyngor RhCT yn rheoli cyfrifon y safleoedd yn unigol ac felly, mae gyda nhw fynediad cyfyngedig i

wybodaeth. Mae data bilio hanesyddol yn dibynnu ar gadw cofnodion safle a dydy hyn ddim yn ddelfrydol ar gyfer Rheoli Contractau Cyfleustodau. Ar hyn o bryd mae'r Garfan Ynni yn rheoli'r holl gyfrifon ynni trwy eu cronfa ddata Rheoli Ynni SystemsLink, ond ei bwriad yw ei gwneud hi'n bosibl mewnfario'r cyfrifon ar gyfer data bilio. Bydd hyn yn caniatáu dadansoddi defnydd a'r posibilrwydd o filio cyfunol i symleiddio rheoli cyfrifon gydag amlygrwydd clir.

Cynlluniau Gweithredu

Cam cyntaf y Strategaeth Rheoli Dŵr yma yw nodi'r defnydd trwy filio a chanoli'r holl gyfrifon i'r system rheoli ynni Systemslink a fydd yn amlygu'r holl ddata bilio. Bydd yr wybodaeth yma'n darparu data gwerthfawr i fonitro'r defnydd a nodi meysydd y dylid canolbwyntio arnyn nhw ar gyfer rhagor o arbedion. Wrth i'r data dyfu, bydd tueddiadau defnydd yn cael eu nodi a bydd modd lleihau'r gwastraff yn sylweddol.

Mae set o gynlluniau gweithredu cytunedig wedi cael eu nodi yn unol â gweithgor Dŵr Cymru y Consortiwm. Bydd y cynlluniau gweithredu yma'n darparu atebion sy'n dderbyniol i'r Consortiwm ac i Dŵr Cymru.

1. Darparu data bilio a defnydd

Mae'r Consortiwm a Dŵr Cymru wedi cytuno mai sicrhau bod y data yn gywir ac yn gyfredol yn ddechrau da ar gyfer pob awdurdod lleol ac y bydd angen ymagwedd fesul cam i ddeall graddfa'r materion.

Ystyriodd Dŵr Cymru opsiwn i gael cyfeirnod unigryw (SPID) i adnabod pob cyfeiriad. Byddai pob mesurydd yn cael ei adnabod trwy'i gyfeirnod unigryw ei hun a fydd y cyfeirnod yma ddim yn newid hyd yn oed os yw'r cwsmer yn newid. Ystyriwyd hyn, ond fyddai ddim yn addas hyd yn oed gyda'u system newydd. Penderfynwyd mai rhif cyfrif unigryw fyddai'r ffordd orau ymlaen ac y byddai'r drefn yma'n parhau tra byddwn ni'n gwsmer iddyn nhw.

Mae Dŵr Cymru hefyd wedi edrych ar ffordd o gynhyrchu adroddiad CSV cydnaws y bydd modd ei fewnfario i Systemau Rheoli Ynni megis SystemsLink, er mwyn caniatáu fformat cyfrif safonol yn unol â chyfrifon cyfleustodau ynni presennol. Ymrwymodd Dŵr Cymru i system bilio fwy diweddar yn hydref

2017 a fydd wedi gwella ymarferoldeb. Cafodd profion eu cynnal i weld pa fformatau allbwn a all gael eu hallforio, ac fe gafodd samplau eu hanfon i Gyngor Torfaen er mwyn cael eu rhoi ar brawf. Serch hynny, doedd canlyniadau'r profion a gafodd eu cynnal gan Gyngor Torfaen ddim yn llwyddiannus oherwydd nad oedd y data mewn fformat addas (TRADCOMS) ar gyfer eu mewnfario.

Cadarnhaodd Dŵr Cymru fod rheolwr prosiect newydd yn cael ei benodi i ddatrys y broblem EDI a bydd yn awyddus i ymgynghori ag awdurdodau lleol i ddeall ein gofynion. Bydd Cyngor Torfaen yn cynghori ar safon TRADCOMS i weithio gyda system SystemsLink Cyngor RhCT. Mae Dŵr Cymru wedi dewis ALI bach i gynnal profion (hynny yw Cyngor Caerffili). Byddwn ni'n aros am eu hadborth ynglŷn â'r canlyniadau.

Gweithredu gan Dŵr Cymru

Mae rhestr o gyfrifon Cyngor RhCT wedi cael ei pharatoi gan y Garfan Ynni gyda chymorth Carfan Credydwy'r Cyllid RhCT ac mae gwaith i sicrhau bod y data yn gywir ac yn gyfredol yn cael ei gynnal yn barod ar gyfer rhoi'r cyfrifon ar brawf.

Gweithredu gan Gyngor RhCT

- Rhoi'r Targed ar waith – Chwarter 1 2018/19

2. Amledd y bilio a derbyn gwybodaeth ynglŷn â defnydd

Yn ddelfrydol, byddai Darllen Mesuryddion yn Awtomatig (AMR) yn gwneud y broses yn fwy awtomatig ac yn amlygu darlleniadau anghywir. O ganlyniad i'r data mwy cywir o ran defnydd, byddai llai o waith rheoli. Serch hynny, dydy'r opsiwn yma ddim ar gael ar gyfer mesuryddion dŵr ac mae angen datblygu pellach. Bydd y math yma o fesurydd yn arwain at ar gostau a chytunwyd y byddai cyflogi darparwr preifat yn bosibl, os yw'r system yn dderbyniol i ragofynion AMR Dŵr Cymru. I wella cywirdeb yn y cyfamser, mae Dŵr Cymru wedi gwahodd cwsmeriaid i adrodd yn ôl os nad oes modd darllen y mesuryddion oherwydd eu lleoliad ac fe fyddan nhw'n ceisio ail-leoli'r mesuryddion i lefydd mwy hygyrch lle bo hynny'n ymarferol.

Mae Dŵr Cymru wedi dewis yr uned Cello fel logiwr AMR hyfyw

gan ei fod wedi'i ddefnyddio'n llwyddiannus gyda mesuryddion nwy. Cafodd rhestr brisiau ei darparu. Yr opsiwn rhataf yw gosod un AMR o £690 y flwyddyn gyda gostyngiad ar gyfer blynyddoedd 2 i 5 (5 mlynedd = £ 1,158.40). Mae opsiwn darllen pob hanner awr am £1,240.99 ar gyfer y flwyddyn 1^{af} a £117.10 ychwanegol y flwyddyn wedi hynny.

Bydd modd ychwanegu'r costau uchod at y biliau cyfredol a'u talu dros flwyddyn. Mae'r defnydd o'r unedau yma wedi bod yn amhrisiadwy o ran darganfod gollyngiadau ac maen nhw'n darparu data ategol ar gyfer hawliadau dŵr sydd ddim yn dychwelyd i garthffosydd.

Bydd Cyngor RhCT yn ystyried hyn ar gyfer y safleoedd sy'n defnyddio llawer o ddŵr a'r safleoedd hynny sydd â phroblemau hanesyddol o ran defnydd. Serch hynny, bydd angen cynnal profion signal i sicrhau bod y dechnoleg yma'n addas mewn tyllau archwilio. Byddai angen cadarnhad ar Gyngor RhCT bod y dechnoleg yma wedi'i chymeradwyo gan y diwydiant a'i bod yn cael ei chyflwyno'n fasnachol cyn i ni argymhell ei defnyddio. Ar ôl cael ei chymeradwyo, byddwn ni'n argymhell rhoi'r dechnoleg yma ar brawf er mwyn gweld a fyddai'n bosibl iddi arbed dŵr ar safle mawr.

Gweithredu gan Dŵr Cymru

- Gweithredu Targed – Chwarter 4 2019/20
[Bydd angen cymeradwyaeth cyn ymrwymo]

3. Opsiynau talu

Cafodd pryderon eu codi gan fod Dŵr Cymru wedi dileu'r opsiwn i dalu gyda cherdyn credyd masnachol. Mae cais wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i gadw'r cerdyn prynu am gyfnod hwy er mwyn caniatáu i'r awdurdodau addasu i'r newid. Roedd Dŵr Cymru wedi gwneud penderfyniad i beidio â derbyn cardiau, ond ar ôl i Barclaycard ymyrryd (yn dilyn awgrym gan ein carfan gaffael), fe newidion nhw eu meddyliau. Mae Dŵr Cymru wedi cytuno i barhau i gynnig yr opsiwn talu yma hyd y gellir rhagweld.

Mae Carfan Gaffael Cyngor RhCT wedi cadarnhau na fydd y drefn yma'n newid ac y bydd yr opsiwn talu yma'n parhau hyd y

gellir

rhagweld.

Wedi'i weithredu gan Gyngor RhCT

- Rhoi'r Targed ar waith – Chwarter 1 2018/19

4. Seilwaith wedi'i osod – manylion ac adolygiad

Mae Dŵr Cymru wedi derbyn nad yw'r mesuryddion sydd wedi'u gosod ar hyn o bryd bob amser mewn mannau hygyrch ac yn edrych yn fanwl ar atebion i oresgyn hyn. Yn ogystal â hynny, tynnwyd sylw at y ffaith bod angen asesu mesuryddion sy'n rhy fawr yn aml, felly mae angen system er mwyn i Dŵr Cymru fynd i'r afael â'r materion yma.

Mae Cyngor RhCT wedi rhoi gwybod i Dŵr Cymru bod y mwyafrif o'r mesuryddion yn anodd iawn eu cyrraedd ac fel arfer, ei bod hi'n anodd i gleientiaid eu darllen oherwydd eu lleoliad, eu hoedran neu'u cyflwr.

Darparwyd rhestrau o enghreifftiau o fesuryddion sydd wedi'u gosod mewn llefydd heriol a bydd Dŵr Cymru yn edrych arnyn nhw er mwyn ceisio dod o hyd i'r atebion gorau ar gyfer pob enghraifft. Gofynnwyd cwestiwn i Dŵr Cymru ynghylch newidiadau posibl mewn pwysedd dŵr pe byddai mesurydd yn cael ei wneud yn llai. Bydd Dŵr Cymru yn egluro hyn yn y cyfarfod nesaf.

Gweithredu gan Dŵr Cymru

- Rhoi'r Targed ar waith – Chwarter 1 2019/20

O'r eitemau sydd wedi'u rhestru uchod, mae Cyngor RhCT wedi gwneud cynnydd gyda Dŵr Cymru a chyfarfodydd gweithgorau'r Consortiwm ac yn hyderus y bydd cynnydd yn datrys llawer o'r materion sydd angen mynd i'r afael â nhw.


Atodiad 7

Adran Eiddo Corfforaethol

Rheoli Asedau

Rheolwr Adeiladu

Nodyn gwybodaeth



Cefndir

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i sicrhau bod ei holl adeiladau gweithredol a'i safleoedd yn cael eu 'Rheoli' gan uwch aelod o staff dynodedig o fewn y Gyfadran sy'n meddiannu'r ased. Er mwyn egluro'r broses yma, mae'r Adran Eiddo yn cyflwyno rhestr o "Reolwyr Adeilad" penodedig ar gyfer pob ased sy'n cael ei weithredu gan Gyngor Rhondda Cynon Taf. Bydd hon yn cael ei chadw ar gronfa ddata Asedau Eiddo'r Cyngor.

Mae'r Rheolwr Adeiladu yn aelod o staff sydd wedi'i benodi gan y Gyfadran/Cyfadrannau i gydlynu'r holl weithrediadau yn yr eiddo hwnnw, gan gynnwys rheoli diogelwch tân a diogelwch yr adeilad yn gyffredinol, materion cynnal a chadw a materion seilwaith o fewn adeilad. Mae'r nodyn gwybodaeth yma'n nodi'r dyletswyddau sylfaenol. Os oes angen

eglurhad ar unrhyw agwedd, cysylltwch â'ch swyddog cyswllt dynodedig o'r Adran Eiddo.

Mae modd cael hyd i bolisiâu sy'n ymwneud ag lechyd a Diogelwch a swyddogaethau Rheolwyr Adeilad yn y dogfennau canlynol sydd ar gael gan Adnoddau Dynol:

- Canllaw Rheolwyr Safle ar gyfer lechyd a Diogelwch mewn Swyddfeydd,
- Canllaw Rheolwyr Safle ar gyfer lechyd a Diogelwch mewn Canolfannau Oriau Dydd,
- Canllaw Rheolwyr Safle ar gyfer lechyd a Diogelwch mewn Cartrefi Gofal Preswyl

Cydlynu a Chyfathrebu â'r Adran Eiddo

Rhaid bod meddianwyr yr adeiladau a'r Adran Eiddo yn cyfathrebu â'i gilydd i sicrhau bod cyn lleied o aflonyddu ag sy'n bosibl yn ystod gwaith cynnal a chadw. Yn ogystal â hynny, rhaid rhannu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r risgiau i staff yr Adran Eiddo neu gontractwyr o ganlyniad i weithrediadau meddianwyr yr adeilad, ac i'r gwrthwyneb. Er mwyn i hynny ddigwydd, rhaid bod person cyswllt penodol o fewn pob adeilad i gysylltu â'r Adran Eiddo, hynny yw, Rheolwr yr Adeilad.

Mae'r Adran Eiddo wedi dosbarthu ffurflenni casglu data i bob adeilad yn ein portffolio ar fwy nag un achlysur er mwyn canfod pwy yw'r Rheolwr Adeilad a'i fanylion cyswllt. Yn anffodus, mae'n ymddangos nad yw'r data rydyn ni'n eu cadw yn aros yn gyfredol am hir iawn oherwydd anaml iawn y bydd rhywun yn rhoi gwybod i ni am unrhyw newidiadau. Felly, rhaid i'r Rheolwr Adeiladu gysylltu â'n swyddogion Rheoli Asedau o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn ariannol i sicrhau bod y manylion rydyn ni'n eu cadw yn gywir.

Pryd bynnag y bydd newid i swyddogaeth y Rheolwr Adeilad neu i unrhyw fanylion cyswllt, rhaid i'r Rheolwr Adeilad roi gwybod i'r Adran Eiddo ar unwaith.

Trosolwg o gyfrifoldebau a dyletswyddau'r Rheolwr Adeilad

Mae'r dyletswyddau isod yn berthnasol i bob adeilad. Mae'n bosibl bydd modd iddyn nhw gael eu haddasu i bob adeilad, ond rhaid cynnal yr egwyddorion sylfaenol, hynny yw, cydlynu diogelwch tân a bod ag un person cyswllt penodol i gadw mewn cysylltiad â'r Adran Eiddo.

Dylai'r Rheolwr Adeilad wneud y canlynol:

- Bod yn effro i nodweddion diogelwch yr adeilad, ac unrhyw risgiau penodol ar y safle, er enghraifft, deunyddiau/sylweddau/prosesau/offer risg uchel, neu unrhyw faterion eraill sydd wedi'u nodi yn yr asesiad risg tân (ar gael gan yr Adran Eiddo);
- Gwybod ble mae pwyntiau ynysu'r prif gyflenwadau nwy, dŵr a thrydan;
- Cydlynu gweithdrefnau argyfwng yr adeilad;
- Cadw mewn cysylltiad â'r Adran Eiddo ac unigolion eraill sy'n rhannu adeilad amlfeddiannaeth er mwyn sicrhau amgylchedd gwaith diogel;
- Gwybod am weithrediadau meddianwyr yr adeilad, ac am unrhyw gynnig i newid yr adeilad (e.e. estyniadau, addasiadau, gwaith ailwampio a newid defnydd);
- Cynorthwyo'r Adran Eiddo drwy brofi larymau tân, goleuadau argyfwng ac offer diogelwch arall bob hyn a hyn; DS Bydd hyn yn amrywio o adeilad i adeilad, gan ddibynnu ar y math o systemau sydd wedi'u gosod.
- Cynnal a chadw ffolder argyfwng yr adeilad;
- Monitro a chyfarwyddo staff cynnal a chadw a chontractwyr ar y safle (i'r graddau y gallai eu gweithrediadau effeithio ar staff ac ymwelwyr), gan gynnwys sicrhau bod ganddyn nhw awdurdod i ddechrau gweithio, a rhoi gwybod iddyn nhw am unrhyw risgiau arbennig yn yr eiddo;
- Sicrhau bod yr Adran Eiddo yn gwybod am newidiadau i'r adeilad neu newid defnydd a bod yr Adran wedi cymeradwyo'r rhain.
 - Sicrhau bod unrhyw systemau diogelwch (gweithdrefnau cloi/datgloi adeiladu, systemau cerdyn llithro ac ati) yn effeithiol wrth gynnal lefel briodol o ddiogelwch;
 - Cynnal a chadw cofnodion lechyd a Diogelwch (ar gyfer cofnodion sy'n ymwneud â'r adeilad);
 - Monitro tymheredd y dŵr a llifolchi allanfeydd ar gyfer rheoli Clefyd y Lleng Filwyr (dim ond pan fydd yr Adran Eiddo yn cytuno â hyn);

- Cydlynu rhoi gwybodaeth i'r Adran Eiddo ynglŷn â risgiau gweddilliol o brosesau sydd wedi'u cynnal mewn unrhyw ardal sydd i'w hailwampio.
- Rhoi gwybod i'r Adran Eiddo os oes difrod i ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos.

Diogelwch Tân

Rhaid rheoli trefniadau diogelwch tân yn effeithiol yn holl adeiladau'r Cyngor. Yn ei ystyr ehangaf, y 'person cyfrifol' (yn unol â deddfwriaeth) yw'r Cyngor, gyda 'phobl gymwys' wedi'u penodi i weithredu gwahanol agweddau ar y trefniadau diogelwch tân. O fewn pob adeilad, mae'r Cyngor yn penodi person cymwys (hynny yw, y Rheolwr Adeilad) i gydlynu'r trefniadau diogelwch tân. Sylwch fod angen hyfforddiant digonol ar berson sy'n cael ei ystyried yn berson cymwys.

Rheoli Ynni

Mae'r Ymrwymiad Lleihau Carbon yn gynllun gorfodol y mae'r Cyngor wedi ymrwymo iddo sydd â'r nod o wella effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau. Er mwyn i'r Cyngor gyrraedd ei dargedau, rydyn ni angen i bob adran gydweithredu a chwarae ei rhan. Oherwydd hynny, rydyn ni'n gofyn i Rheolwyr Adeilad wneud y canlynol:

- Darllen mesuryddion ynni bob mis a rhoi'r wybodaeth i'r cyflenwyr ynni lle bo angen.
- Defnyddio'r darlleniadau i gysoni anfonebau ynni cyn talu.
- Rhoi gwybod ar unwaith am unrhyw newidiadau i'r mesuryddion ynni (er enghraifft, gosod mesurydd newydd) i'r Uned Ynni Gorfforaethol.
- Atgyfeirio unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â newidiadau i'r contractau ynni i'r Uned Ynni Gorfforaethol.
- Chaiff Rheolwyr Adeilad ddim trafod unrhyw newidiadau i'r contractau cyflenwi ynni.

Mae'r nodyn yma wedi'i ddarparu fel cyfeiriad i ddyletswyddau'r Rheolwr Adeilad (ac eglurhad ohonyn nhw) fel y maen nhw ar hyn o bryd ac felly ni ddylid camddehongli'r nodyn yma fel ehangiad i

swyddogaeth y Rheolwyr Adeilad. Felly does dim opsiwn i ddewis derbyn neu wrthod y swyddogaethau sydd wedi'u nodi.

Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol 2018-2023

Taflen Cofnodi Diwygiadau

Dyma'r diwygiadau i'r cynllun

Rhif y diwygiad	Dyddiad cadarnhau bod y gwaith wedi'i gyflawni	Diwygiad	Llofnod